Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Hydref 2021



# Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Cytunodd Estyn â Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyflwr y genedl er mwyn ymateb i ddau argymhelliad gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r argymhellion yn amlinellu y dylai Estyn:

- adolygu addysgu hanes Cymru mewn ysgolion a'r dystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o ran addysgu cynnwys Cymreig
- adolygu sut mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, ac ystyried a yw'r hanes sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019).

Yn dilyn y digwyddiadau yn ystod haf 2020 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, cytunodd Estyn â Llywodraeth Cymru y dylai'r adolygiad ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru a'r cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ehangach.

## Darllenwch fwy

## CYNNWYS

**Am y ddogfen**
Datganiad hawlfraint
Cyflwyniad
Cefndir
Prif ganfyddiadau
Argymhellion
Safonau
Darpariaeth
Arweinyddiaeth

## ATODIADAU

**Atodiad 1: Cwestiynau i ddarparwyr**

**Atodiad 2: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 3**

**Geirfa**

**Cyfeiriadau**

# Am y ddogfen


**Datganiad hawlfraint**

**Cyflwyniad**

**Cefndir**

**Prif ganfyddiadau**

**Argymhellion**

**Safonau**

**Darpariaeth**

**Arweinyddiaeth**

# Datganiad hawlfraint

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

# Cyflwyniad

Cytunodd Estyn â Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyflwr y genedl er mwyn ymateb i ddau argymhelliad gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r argymhellion yn amlinellu y dylai Estyn:

- adolygu addysgu hanes Cymru mewn ysgolion a'r dystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o ran addysgu cynnwys Cymreig
- adolygu sut mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, ac ystyried a yw'r hanes sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019).

Yn dilyn y digwyddiadau yn ystod haf 2020 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, cytunodd Estyn â Llywodraeth Cymru y dylai'r adolygiad ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru a'r cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ehangach.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn addysgu hanes a diwylliant Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Bydd yr adolygiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer orau i ddangos lle mae hanes a diwylliant Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu datblygu'n effeithiol.

Cynulleidfa fwriadedig yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, partneriaethau addysg gychwynnol athrawon, swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hefyd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Cafodd y gweithgarwch a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer yr adolygiad thematig ei adolygu a'i addasu oherwydd yr aflonyddwch yr achosodd COVID-19 i addysg yn ystod 2020 a 2021. Mae'r adroddiad yn defnyddio canfyddiadau o arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Mawrth 2020, ymweliadau rhithiol ag ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), a nifer fach o ymweliadau ar y safle ag ysgolion cynradd ac uwchradd. Ymgynghorodd arolygwyr ag ystod eang o randdeiliaid hefyd, gan gynnwys rhieni, cynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch, academyddion a staff consortia rhanbarthol.

# Cefndir

Bu addysgu hanes a diwylliant Cymru yn destun dadl ddwys cyn ac ar ôl sefydlu'r cwricwlwm cenedlaethol ym 1988. Mae llofruddiaeth George Floyd a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi rhoi ffocws o'r newydd ar addysg gwrth-hiliaeth ac addysgu am hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion ers haf 2020.

Pan sefydlwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ym 1988, cytunwyd y byddai gan rai pynciau, gan gynnwys hanes, raglenni astudio gwahanol yng Nghymru. Y nod oedd i'r cwricwlwm cenedlaethol i Gymru adlewyrchu diwylliant, amgylchedd, economi a hanes Cymru, a'r dylanwadau sy'n siapio'r Gymru sydd ohoni. Ym 1993 a 2003, nododd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (2003) yr angen am ragor o arweiniad ar ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig, a chyhoeddodd ddeunyddiau ac adnoddau ategol i ysgolion. Yn 2001, cyhoeddodd ACCAC (2001) adroddiad 'Cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'. Yn 2001 a 2005, cyhoeddom adroddiadau thematig ar 'Y Cwricwlwm Cymreig' (Estyn, 2005). Yn 2005, adroddom fod ansawdd cynllunio gan ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig wedi gwella ers arolwg Estyn yn 2001, ac mewn llawer o'r dosbarthiadau yr ymwelwyd â nhw, bod disgyblion yn datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae digwyddiadau hanesyddol, pobl a thirweddau wedi dylanwadu ar arlunwyr, beirdd ac awduron mewn amrywiol rannau o Gymru. Yn yr un flwyddyn, crybwyllom fod lleiafrif o ysgolion wedi defnyddio'r arweiniad ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn effeithiol.

Yn 2008, diwygiwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol i Gymru. Roedd dogfennau arweiniad y cwricwlwm yn cyfeirio at y Cwricwlwm Cymreig (7-14 oed) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14-19 oed). Roedd yr arweiniad yn pwysleisio cyfraniad hanes at y Cwricwlwm Cymreig o ran helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sydd wedi llunio Cymru drwy astudio hanes lleol a hanes Cymru. Mae'r arweiniad hefyd yn manylu y dylai ysgolion ddatblygu dulliau sy'n datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau, gwerthoedd ac agweddau disgyblion i'w galluogi i gyfranogi yng nghymdeithas amlethnig Cymru.

> 'Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14-19 oed gael cyfleoedd i ymgysylltu'n weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Bydd hanes yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy wneud hanes lleol a hanes Cymru yn ffocws yr astudiaeth a chynorthwyo dysgwyr i ddeall y ffactorau sydd wedi llunio Cymru a gwledydd eraill heddiw.' (Llywodraeth

Cynulliad Cymru, 2008, t.8).

> 'Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, t.4)

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad ar 'Undod ac amrywiaeth' i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Yn 2012, sefydlodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau grŵp gorchwyl a gorffen, wedi'i gadeirio gan Dr Elin Jones, i lunio adroddiad i Lywodraeth Cymru (2013) ar y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru. Nododd y grŵp gorchwyl a gorffen fod agweddau ysgolion tuag at y Cwricwlwm Cymreig yn amrywio'n eang, er enghraifft drwy drin y dimensiwn Cymreig fel adendwm i raglenni astudio neu bwysleisio'r cyd-destun lleol a chyd-destun Cymru ar draul y cysylltiadau rhwng Cymru a'r byd. Aeth y grŵp gorchwyl a gorffen ymlaen i awgrymu bod 'nifer o ddysgwyr yn ysgolion Cymru yn dysgu mwy am hanes Lloegr nac am hanes eu bro a'u gwlad eu hunain' (Llywodraeth Cymru, 2013, t.12). Roedd y prif argymhellion o'r adroddiad yn ymwneud â hanes Cymru yn cynnwys:

- Wrth adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol, dylai'r rhaglen astudio gael ei hailstrwythuro, er mwyn rhoi arweiniad pendant ar y berthynas rhwng hanes lleol, Cymru, Prydain, Ewrop a'r byd ehangach. Y nod fyddai rhoi sylfeini cadarn i ddealltwriaeth hanesyddol dysgwyr tra'n ymestyn eu gorwelion.
- Dylai pob manyleb TGAU Hanes a gynigir yng Nghymru gynnwys elfen integredig a gorfodol o hanes Cymru.
- Dylid cytuno ar restr o gwestiynau/themâu/topigau penodol i'w datblygu ar Hwb+ fel bod modd i'r sector addysg uwch a'r sector treftadaeth gydweithio gydag athrawon i ddatblygu adnoddau blaengar, yn seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf.
- Dylai'r adnoddau hyn i gyd bwysleisio natur amodol hanes, ac amrywiaeth profiad ymhob cyfnod. Dylent gynorthwyo dysgwyr i wrthgyferbynnu a chymharu profiadau gwahanol garfannau o bobl ymhob cyfnod. (Llywodraeth Cymru, 2013, t.22)

Yn 2014, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Athro Donaldson gynnal adolygiad o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Amlinellodd yr adroddiad canlyniadol, sef Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), gynigion ar gyfer cwricwlwm newydd ac argymell y dylid cymhwyso'r egwyddor o

sybsidiaredd i’r broses o ddiwygio’r cwricwlwm. Mae’r Cwricwlwm i Gymru wedi’i lywio gan ddibenion yn hytrach na chynnwys, sy’n caniatáu i ysgolion ddylunio a datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Mae ychydig o randdeiliaid ym myd addysg yng Nghymru o’r farn bod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle ac yn peri bygythiad i gynnwys hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) adroddiad ar addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru i lywio ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cwricwlwm i Gymru 2022. Ystyriodd y pwyllgor dystiolaeth gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys aelod o grŵp gorchwyl a gorffen y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru, a fynegodd rwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd o ran datblygu addysgu hanes Cymru, yn enwedig o ystyried y cyhoeddwyd adroddiad y grŵp yn 2013 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019, t.8). Darparodd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru dystiolaeth gan ddisgyblion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i’r pwyllgor yn amlinellu eu pryderon nad oedd unrhyw beth yn y cwricwlwm am fod yn ddu ac yn Gymry. Roedd hefyd yn feirniadol o wybodaeth arwynebol athrawon o hanesion amrywiol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019, t.19)

Ym mis Gorffennaf 2020, penododd Llywodraeth Cymru yr Athro Charlotte Williams i arwain gweithgor i gynghori ar, a gwella, addysgu themâu yn ymwneud â chymunedau a phrofiadau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws pob rhan o’r cwricwlwm. Roedd argymhellion y gweithgor yn cynnwys y canlynol:

- creu adnoddau dwyieithog newydd i gynorthwyo i addysgu hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- cryfhau’r Datganiad o’r Hyn sy’n Bwysig i adlewyrchu bod Cymru yn gymdeithas amlddiwylliannol sydd â hanes maith o amrywiaeth, ac i leddfu’r perygl y caiff profiadau a chyfraniadau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig eu hymyleiddio
- rhoi canllawiau i annog ysgolion i fyfyrio ar amrywiaethu’r cwricwlwm
- darparu dysgu proffesiynol ar hyd gyrfaoedd athrawon (Williams, 2021, t.11-15)

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Eu nod yw helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain a galluogi eu disgyblion i ddatblygu tuag at bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Dylai ysgolion fod â gweledigaeth i ddatblygu cwricwlwm sy’n cynorthwyo i ddatblygu ymdeimlad disgyblion o hunaniaeth yng Nghymru. Dylai ysgolion ddylunio eu cwricwlwm mewn ffordd sy’n galluogi disgyblion i ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a datblygu dealltwriaeth o addysg hawliau dynol ac amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys addysg hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Mae’r canllawiau ar gyfer thema drawsbynciol amrywiaeth yn cyfeirio at ‘adnabod a dathlu natur amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau, a sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu’r amrywiaeth honno a’i fod yn gallu ymateb i brofiadau’r grwpiau a’r cymunedau hynny’ (Llywodraeth Cymru, 2020, t.42). Yn ogystal,

‘dylai dealltwriaeth dysgwyr o Gymru hefyd gydnabod y ffordd y mae safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau yn siapio Cymru, yn hytrach na chyflwyno darlun nodweddiadol o hunaniaeth Gymreig unffurf’ (Llywodraeth Cymru, 2020, t.45). Mae’r canllawiau’n cyfeirio at gyfleoedd fel:

- creu cysylltiadau â chymunedau a sefydliadau lleol
- dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol, gwerthoedd, hanes a thraddodiadau mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- deall y gwahanol hunaniaethau, hanes, diwylliannau, safbwyntiau a gwerthoedd sy’n llywio cymunedau a chymdeithasau
- datblygu ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a’u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi’u llywio ganddyn nhw
- manteisio ar hanesion a gwahanolrwydd ardal leol ysgol
- cydnabod etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol amrywiol Cymru a’i chysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- cydnabod y cysylltiadau rhwng cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddeall y ffordd y maen nhw’n dylanwadu ar ei gilydd yn barhaus

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2021) ddogfen ymgynghori ar ddatganiadau drafft Cod yr Hyn sy’n Bwysig. Ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau, mae’r newidiadau’n cynnwys gwneud cyfeiriadau at hanes Cymru yn fwy eglur. Hefyd, cryfhawyd y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig i gyfeirio at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes amrywiol, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru a’r byd ehangach. Caiff canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru eu cyhoeddi yn ystod hydref 2021.

Mae ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn addysgu TGAU diwygiedig CBAC mewn hanes, a ddechreuodd ym mis Medi 2017 i’w dyfarnu o 2019. Nod y cymhwyster TGAU yw galluogi dysgwyr i:

- feithrin ac ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth am hanes Cymru a’r persbectif Cymreig ar hanes
- caffael dealltwriaeth o hunaniaethau gwahanol o fewn cymdeithas, yn cynnwys eu cymdeithas eu hunain, a dirnadaeth o agweddau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac amrywiaeth ethnig
- adeiladu ar eu dealltwriaeth o’r gorffennol ac amrywiaeth y profiad dynol drwy gael profiad o gwrs astudio eang a chytbwys

Mae’r maes llafur TGAU yn cynnwys pedair uned: dwy astudiaeth fanwl sy’n dwyn y teitlau ‘Cymru a’r persbectif ehangach’ a ‘Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop/y byd’, ‘astudiaeth thematig o bersbectif hanesyddol eang’ ac asesiad di-arholiad yn dwyn y teitl ‘Gweithio fel hanesydd’. Mae pob astudiaeth fanwl yn cynnig pedwar opsiwn i ysgolion

ddewis ohonynt. Mae manyleb yr astudiaeth thematig yn arwain athrawon i amlygu effaith newid ar Gymru yn y cyd-destun hanesyddol ehangach.

Dechreuodd ysgolion addysgu’r cymhwyster Uwch Gyfrannol/Safon Uwch ym mis Medi 2015. Mae nodau ac amcanion y cymhwyster Uwch Gyfrannol a’r Safon Uwch yn cynnwys:

- annog dysgwyr i ddod i ddeall hunaniaethau gwahanol o fewn cymdeithas a gwerthfawrogi agweddau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac amrywiaeth ethnig, fel y bo’n briodol
- dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle y bo’n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny’n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o’r byd o’u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â’r DU, Ewrop a’r byd.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau

Pan gânt y cyfle i wneud hynny, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am hanes, hunaniaeth a diwylliant lleol a Chymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ddigwyddiadau fel Tryweryn, Cilmeri a Therfysgoedd Beca. Yn benodol, maent yn mwynhau gweithgareddau lle maent yn dysgu am arwyddocâd digwyddiadau ac unigolion lleol yng nghyd-destun hanes Cymru, Prydain a'r byd. Pan gânt gyfle i astudio hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae disgyblion yn mwynhau astudio cyfraniad unigolion amrywiol at hanes, fel John Ystumllyn, Martin Luther King, Harriet Tubman a Nelson Mandela. Wrth iddynt aeddfedu, mae disgyblion yn gwerthfawrogi sut bydd eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant yn eu helpu i ddatblygu'n ddisgyblion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd. Mae disgyblion yn mwynhau trin arteffactau a thystiolaeth gyffyrddadwy, darllen nofelau wedi'u seilio ar ddigwyddiadau hanesyddol, defnyddio adnoddau digidol, a pharatoi a chyflwyno dadleuon wrth ystyried safbwyntiau gwahanol.

Ym mwyafrif yr ysgolion, nid oes gan ddisgyblion lawer o wybodaeth am y digwyddiadau hanesyddol sydd wedi ffurfio eu hardal leol, ac ni allant enwi llawer o Gymry arwyddocaol o hanes. Nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng unigolion a digwyddiadau yn hanes Cymru â hanes Prydain a'r byd, ac nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cysyniadau hanesyddol allweddol yn berthnasol i gyd destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth gysyniadol gynyddol a chydlynol o hanes Cymru. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw cyfleoedd i astudio hanes lleol a chenedlaethol yn cael eu cynllunio'n strategol. Mewn ychydig o ysgolion, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o hanes lleol a hanes Cymru. Mewn ychydig iawn o ysgolion, gwna disgyblion gysylltiadau ystyrlon rhwng eu hardal leol a hanes Cymru, Prydain a'r byd. Yn gyffredinol, mae gallu disgyblion i alw digwyddiadau a bywyd hanesyddol yng Nghymru i gof ar ei gryfaf pan fyddant wedi ymweld ag amgueddfa neu safle hanesyddol sy'n dod â'r digwyddiadau hyn yn fyw.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o hanes pobl a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Gall llawer o ddisgyblion enwi unigolion o hanes rhyngwladol ond, yn gyffredinol, mae ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o'u harwyddocâd hanesyddol. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am hanes unigolion a chymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'i flaenoriaethu a'i gynllunio'n dda, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth eang o hanes o sawl safbwynt.

Pan ddiwygiwyd manylebau TGAU i'w haddysgu o 2016, cafodd y gofyniad i ddewis un astudiaeth fanwl ar 'Cymru a'r persbectif ehangach' effaith gadarnhaol ar faint o hanes Cymru sy'n cael ei astudio. Fodd bynnag, mae faint o hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael ei astudio gan ddisgyblion TGAU a Safon Uwch yn dibynnu gormod o hyd ar y pynciau sy'n cael eu dewis gan ddisgyblion, a'r testunau sy'n cael eu dewis o'r ystod sy'n cael eu cynnig gan y bwrdd arholi. Mae'r gwahaniaeth o ran faint o hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael ei gynnwys mewn testunau yn ei gwneud yn anodd asesu a chymharu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae adroddiad yr arholwyr TGAU yn haf 2019 yn awgrymu na chyfeiriodd disgyblion yn ddigon da at gyd-destun Cymru yn eu hatebion ar draws yr holl bapurau thematig.

# Darpariaeth

Mae mwyafrif o ysgolion cynradd yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a Chymru. Mewn ychydig o ysgolion, mae staff yn defnyddio hanes lleol a hanes Cymru yn sbardun ar gyfer cynllunio testunau a chreu cysylltiadau rhwng hanes lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lle yn y byd.

Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid yw hanes lleol a hanes Cymru yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol, a chânt eu hystyried yn elfen 'ychwanegol'. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn ystyried hanes lleol a hanes Cymru o gwbl wrth gynllunio eu gwersi. Yn aml, mae hyn oherwydd diffyg gwybodaeth am yr ardal leol a Chymru, neu orddibyniaeth ar adnoddau sydd wedi'u llunio'n fasnachol.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae gwersi'n cynnwys cyfeiriadau brysiog yn unig at hanes lleol a hanes Cymru. Nid yw athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gydlynys o'r ardal leol a Chymru ar draws cyfnodau hanesyddol. Caiff disgyblion ychydig iawn o gyfleoedd i greu cysylltiadau â digwyddiadau yn hanes Prydain a'r byd, a datblygu eu medrau hanes yng nghyd destun hanes Cymru. Mewn ychydig o enghreifftiau arbennig o effeithiol, mae adrannau hanes yn meddwl yn ofalus am gynnwys eu cwricwlwm ac yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau a medrau. Nid yw athrawon yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i astudio hanes lleol a hanes Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn hanes UG a Safon Uwch, gan eu bod yn canolbwyntio ar ofynion penodol arholiadau.

Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm. Mae testunau'n canolbwyntio'n bennaf ar hanes rhyngwladol ac amrywiaeth ddiwylliannol mewn gwledydd heblaw Cymru. Ychydig iawn o ysgolion sy'n addysgu disgyblion am gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at

hanes Cymru. At ei gilydd, mae darpariaeth ar ei chryfaf mewn ysgolion mewn ardaloedd amlddiwylliannol ac amrywiol yng Nghymru. Ychydig iawn o ysgolion sy'n archwilio neu'n mapio darpariaeth ar gyfer hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn sicrhau bod testunau fel gwrth-hiliaeth, tuedd ddiarwybod, rhagfarn ac amrywiaeth yn cael ffocws digonol yn eu cwricwlwm.

Mae diffyg gwaith pontio ar gyfer hanes yn gyffredinol yn golygu bod gan athrawon mewn ysgolion uwchradd ychydig iawn o wybodaeth am yr hyn y mae disgyblion wedi'i ddysgu am hanes lleol, hanes Cymru neu hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng nghyfnod allweddol 2. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion cynradd clwstwr yn cydweithio â'i gilydd a'u hysgol uwchradd i gytuno ar yr hyn sy'n cael ei addysgu yng nghyfnod allweddol 2 a 3. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae ffactorau yn cynnwys ailadrodd testunau mewn cyfnodau allweddol, a ffocws cryf ar baratoi disgyblion ar gyfer asesiadau TGAU, yn cyfyngu ar faint o hanes lleol, hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y mae disgyblion yn ei astudio.

Mae gan fwyafrif o athrawon wybodaeth bynciol gyffredinol, briodol am hanes lleol a hanes Cymru, a hanes rhyngwladol Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Lle mae athrawon yn llai hyderus yn eu harbenigedd pwnc neu'r testun sy'n cael ei addysgu, yn aml nid ydynt yn cynnig lefel briodol o her i ddisgyblion. Maent yn rhoi tasgau i ddisgyblion sy'n eu cadw'n brysur yn hytrach na datblygu eu medrau hanes, nid ydynt yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng hanes lleol, Cymru a'r byd. Nid oes gan y rhan fwyaf o athrawon y wybodaeth i addysgu disgyblion yn effeithiol am gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at hanes Cymru.

Mae llawer o ysgolion yn cynllunio profiadau cyfoethogi gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys ymweliadau â mannau lleol o ddiddordeb. Mae llawer o ysgolion cynradd yn gwahodd preswylwyr a grwpiau lleol i rannu eu profiadau a hanes yr ardal. Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn cynllunio cyfleoedd i grwpiau neu gymdeithasau hanes lleol ymgysylltu â disgyblion. Lle caiff hyn ei wneud yn dda, mae gweithgareddau'n tanio diddordeb a brwdfrydedd disgyblion tuag at hanes lleol a hanes Cymru. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn trefnu darpariaeth addas i hyrwyddo diwylliant Cymru drwy weithgareddau'r cwricwlwm a digwyddiadau ysgol, gan gynnwys Eisteddfod ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy gynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau sy'n adrodd storïau a chwedlau lleol a Chymreig.

Mae amrywiaeth ethnig ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru yn amrywio'n eang. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau amlethnig yn gwahodd grwpiau ac unigolion lleol i siarad am ddiwylliannau, credoau, traddodiadau a hanesion gwahanol. Defnyddia ychydig o ysgolion mewn ardaloedd llai amrywiol

dechnoleg ddigidol i feithrin cysylltiadau â grwpiau amlddiwylliannol, ac unigolion ac ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau amlethnig.

# Arweinyddiaeth

Mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn yr ysgolion y cysylltwyd â nhw yn nodi bod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle sylweddol i gyfoethogi a gwella addysgu hanes lleol a hanes Cymru. Er bod llawer o arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm na'u harlwy dysgu proffesiynol i staff bob tro. Dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n dechrau cynnwys yr agweddau hyn yn bwrpasol yn eu darpariaeth.

Er bod llawer o uwch arweinwyr yn nodi bod staff yn wybodus am hanes a diwylliant yr ardal leol a Chymru, nid oes llawer o dystiolaeth o sut mae ysgolion yn gwerthuso gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae ychydig iawn o ysgolion yn dechrau ystyried safonau a chynnydd disgyblion mewn hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i nodi a chynllunio meysydd i'w gwella. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gwybodaeth, dealltwriaeth ac angerdd arweinwyr pwnc tuag at hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael dylanwad uniongyrchol ar y testunau sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm hanes.

O'r athrawon y cysylltwyd â nhw a ymgymerodd â'u haddysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, ychydig ohonynt yn unig a grybwyllodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar hanes Cymru wrth gwblhau eu cyrsiau addysg gychwynnol athrawon (AGA). Ychydig iawn ohonynt a grybwyllodd eu bod wedi cael hyfforddiant mewn hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae partneriaethau AGA cyfredol yn cynnwys hanes Cymru mewn darpariaeth yn y brifysgol. Mae partneriaethau AGA yn dechrau datblygu eu darpariaeth ar gyfer addysgu gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth mewn elfennau craidd ac elfennau pwnc.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ychydig iawn o ddysgu proffesiynol y gall athrawon fanteisio arno yn ymwneud â hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ei gynnig ar y meysydd penodol hyn. O ganlyniad, mae bron pob ysgol yn dibynnu ar eu hyfforddiant mewnol eu hunain i gynllunio ac addysgu hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mewn ychydig o'r ysgolion y cysylltwyd â nhw, mae staff wedi ymgysylltu â sefydliadau ac elusennau allanol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn ddiweddar i gynnig dysgu proffesiynol ar wrth-hiliaeth ac amrywiaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Cyfeiria’r rhan fwyaf o’r ysgolion a gynhwyswyd yn yr arolwg at ddiffyg adnoddau addas ar gyfer addysgu hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Dywed llawer o athrawon eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ffynonellau crai hanesyddol addas wrth gynllunio profiadau dysgu dilys ac ystyrlon, yn enwedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

- A1 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru, wrth ystyried safbwyntiau gwahanol a chreu cysylltiadau â hanes a diwylliant y byd ehangach
- A2 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac amrywiaeth, a sut y gallant ddod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
- A3 Sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o sut mae unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cyfrannu at hanes a diwylliant Cymru a'r byd ehangach
- A4 Gwerthuso eu cwricwlwm a darpariaeth i gynllunio sut byddant yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes lleol a hanes Cymru, gwrth hiliaeth ac amrywiaeth, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- A5 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu ar gyfer hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn adeiladu ar rai'r cyfnodau allweddol blaenorol ac yn osgoi ailadrodd gwaith

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

- A6 Gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i athrawon ddatblygu eu gwybodaeth am hanes lleol a hanes Cymru, ac i rannu arfer orau
- A7 Cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i athrawon ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'r byd ehangach
- A8 Cynnig cymorth i ysgolion i werthuso eu cwricwlwm a darpariaeth gyfredol ar gyfer hanes a diwylliant lleol a Chymru, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a sut i gynllunio ar gyfer gwella
- A9 Cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ddatblygu eu haddysgu o ran medrau pwnc penodol mewn hanes a'r dyniaethau, yn enwedig i athrawon nad ydynt yn arbenigwyr

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- A10 Gydweithio ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i sicrhau bod yr arlwy dysgu proffesiynol genedlaethol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer gwrth-hiliaeth, amrywiaeth ac addysgu hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- A11 Cydweithio â Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn y dyfodol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

# Safonau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mewn ychydig o ysgolion cynradd a gynhwyswyd yn yr arolwg, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o hanes eu hardal leol a Chymru. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn deall cyfraniad digwyddiadau ac unigolion lleol a Chymreig at hanes. Mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth am hanes eu hardal leol ac yn dechrau creu cysylltiadau rhwng eu hardal leol a hanes Cymru a'r byd ehangach. Yn yr ysgolion hyn, gall llawer o ddisgyblion esbonio sut mae unigolion a digwyddiadau wedi helpu i lunio'r gymuned maent yn byw ynddi heddiw. Ym mwyafrif yr ysgolion cynradd, nid oes gan ddisgyblion lawer o wybodaeth am y digwyddiadau hanesyddol sydd wedi llunio eu hardal leol, ac ychydig iawn o bobl arwyddocaol yn hanes Cymru y gallant eu henwi.

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Mount Stuart yn ymchwilio i ddatblygiad y diwydiant glo ac ardal y dociau yng Nghaerdydd. Mae disgyblion yn trafod ac yn archwilio sut arweiniodd twf a datblygiad codi glo a'r chwyldro diwydiannol at allforio deunyddiau crai i wledydd o gwmpas y byd. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut y ffurfiodd y digwyddiadau hyn fewnfudo a'u cymuned leol dros amser. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn parchu ystod o safbwyntiau wrth drafod profiadau pobl yn eu cymuned ac yng Nghymru.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig iawn o hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Gall llawer ohonynt siarad yn wybodus am unigolion o hanes rhyngwladol, fel Martin Luther King a Rosa Parks ond, yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gyfyngedig iawn o'u harwyddocâd a'u cyfraniad at hanes. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at hanes Cymru a'r Deyrnas Unedig. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd yr ymgyrch i ddiwygio deddfwriaeth cysylltiadau hiliol ar ôl llofruddiaeth Stephen Lawrence. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn creu cysylltiadau rhwng digwyddiadau fel llofruddiaeth George Floyd, mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a'u heffaith ar ddigwyddiadau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Yn gyffredinol, mae gallu disgyblion ysgol gynradd i alw digwyddiadau a bywyd hanesyddol yng Nghymru i gof ar ei gryfaf pan fyddant wedi ymweld ag amgueddfa neu safle hanesyddol, fel Amgueddfa Lleng Rufeinig Caerllion, Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit neu blasty Plas Mawr o oes Elisabeth yng Nghonwy. Mewn llawer o ysgolion cynradd,

nid yw disgyblion yn defnyddio ffynonellau crai yn effeithiol, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol, i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol, yr ardal leol a Chymru. Nid yw disgyblion yn ystyried safbwyntiau a dehongliadau gwahanol mewn hanes yn ddigon da oherwydd nad yw athrawon yn cynnig llawer o gyfleoedd iddynt wneud hynny.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, gall disgyblion cyfnod allweddol 3 adrodd ychydig o storïau o hanes Cymru, er enghraifft digwyddiadau Terfysgoedd Beca. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr achosion, nid yw disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn a chydlynol o hanes eu hardal leol na Chymru gyfan. Nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng unigolion a digwyddiadau yn hanes Cymru â hanes Prydain a'r byd. Mae hyn oherwydd y caiff hanes lleol a hanes Cymru eu cynnwys fel elfen 'ychwanegol' o'r cwricwlwm hanes. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o hanes lleol a hanes Cymru lle caiff cysylltiadau eu creu i esbonio arwyddocâd digwyddiadau, newidiadau ac unigolion hanesyddol. Mae'r disgyblion hyn yn meddwl yn ddadansoddol i greu cysylltiadau a chymariaethau â digwyddiadau mewn gwledydd eraill ac o safbwyntiau gwahanol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, nid yw disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ddigon da. Mewn ychydig iawn o ysgolion lle mae athrawon yn cynnig cyfleoedd wedi'u dethol yn ofalus i ddisgyblion ystyried hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, maent yn dangos dealltwriaeth o faterion fel caethwasiaeth, gwladychu a diwedd ymerodraeth, a gallant greu cysylltiadau â digwyddiadau fel yr hil-laddiad yn Rwanda a hiliaeth heddiw. Nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth o sut mae unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cyfrannu at hanes Cymru.

Mae pob disgybl sy'n dilyn TGAU hanes yn astudio hanes Cymru fel rhan o'u hastudiaeth thematig. Mae faint o hanes Cymru y mae disgyblion yn ei astudio yng ngweddill y cwrs yn dibynnu ar yr unedau y mae ysgolion yn eu dewis. Mae'r amrywiant o ran cynnwys unedau a chwestiynau TGAU yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor dda mae disgyblion yn deall hanes Cymru. Gellir dweud yr un peth am hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae tystiolaeth o adroddiad yr arholwyr yn haf 2019 yn awgrymu mai nodwedd gyffredin ar draws yr holl bapurau thematig oedd nad oedd disgyblion yn cyfeirio at y cyd-destun Cymreig yn ddigon da yn eu hatebion.

Ar lefel UG a Safon Uwch, mae ysgolion yn dewis astudio testunau o ystod sy'n cael ei chynnig ym manyleb yr arholiad. Mae'r amrywiant o ran cyfleoedd i astudio hanes Cymru mewn testunau a chwestiynau arholiad yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor dda mae disgyblion yn cyflawni mewn unedau sy'n cynnwys elfennau o hanes Cymru. Mae cyfleoedd i ddisgyblion astudio hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y manylebau Safon Uwch yn gyfyngedig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar hanes

rhyngwladol.

## Agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau dysgu am bethau a ddigwyddodd yn y gorffennol, gan gynnwys dysgu amdanyn nhw'u hunain a'u teuluoedd. Yn benodol, mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn cynnwys ymweld â mannau o ddiddordeb hanesyddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, er enghraifft cymryd rhan yn Niwrnod Golchi Marged yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau gwrando ar storïau am Gymru yn y gorffennol, yn enwedig pan ddaw'r rhain yn fyw trwy ddefnyddio pypedwaith neu drwy grwpiau theatr ymweliadol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion yn awyddus i siarad am y gweithgareddau maent yn eu mwynhau wrth ddysgu am hanes, gan gynnwys dysgu am hanes yr ardal leol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r gweithgareddau maent yn eu mwynhau yn cynnwys:

- cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol symbylol
- trin arteffactau hanesyddol a thystiolaeth go iawn, gan gynnwys ffotograffau ac erthyglau papur newydd
- darllen nofelau sydd wedi'u seilio ar ddigwyddiadau hanesyddol, er enghraifft llyfr lle mae disgyblion yn ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac yn cael eu cludo i'r gorffennol drwy baentiad o Ddociau Caerdydd
- gwrando ar rywun sy'n siarad â nhw am fywyd yn y gorffennol, er enghraifft aelod o'r gymuned leol
- paratoi a chyflwyno dadl wedi'i seilio ar ddigwyddiad hanesyddol
- ymweld â mannau o ddiddordeb hanesyddol, fel Llancaeach Fawr, Caer Oes Haearn Castell Henllys, Castell y Fflint, Ystrad Fflur, Amgueddfa Lechi Llanberis neu Garchar Rhuthun
- cymryd rhan mewn ailgreadau neu ddigwyddiadau i ddathlu achlysuron hanesyddol, er enghraifft Gorymdaith y Siartwyr i Gasnewydd
- gwrando ar storïau am Gymru pan gânt eu cyflwyno ar ffurf dramâu, er enghraifft drama am Owain Glyndŵr neu Dic Penderyn
- defnyddio adnoddau digidol, gan gynnwys clipiau ffilm a gwefannau, i archwilio hanes lleol
- gwrando ar storïau am unigolion fel Joseph Parry, Betty Campbell, Paul Robeson a Walter Tulle, a digwyddiadau fel trychineb Senghennydd a streic Penrhyn

Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu am hanes a

diwylliant lleol a Chymru, pan gânt y cyfle i wneud hynny. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddysgu am arwyddocâd yr ardal leol, gan gynnwys ei datblygiad gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol, a sut mae hyn yn cysylltu â hanes cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ddigwyddiadau fel Tryweryn, Cilmeri a Therfysgoedd Beca. Pan gaiff disgyblion gyfleoedd i astudio hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, mae llawer ohonynt yn mwynhau astudio unigolion fel John Ystumllyn, Martin Luther King, Harriet Tubman a Nelson Mandela.

Yn yr ysgolion y cysylltwyd â nhw, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dewis astudio hanes TGAU a Safon Uwch agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu am hanes, gan gynnwys hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

# Darpariaeth

## Cwricwlwm

### Ysgolion cynradd

Mae mwyafrif o ysgolion yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a Chymru. Yn y cyfnod sylfaen, mae ysgolion fel arfer yn dechrau â'u hardal leol cyn symud i addysgu themâu ehangach mewn hanes fel rhan o'r maes dysgu 'gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ysgolion yn cynnwys agweddau ar hanes Cymru yn eu cynllunio thematig. Mewn ychydig o ysgolion lle mae cynllunio'n hynod effeithiol, mae staff yn defnyddio hanes Cymru a, lle bynnag y bo'n bosibl, cyd-destun lleol yr ysgol fel sbardun ar gyfer cynllunio testunau. Mae athrawon yn defnyddio digwyddiadau hanesyddol lleol i gynllunio profiadau dysgu difyr i ddisgyblion. Gwnânt gysylltiadau rhwng hanes lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lle yn y byd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau creadigol dros ben i ddatblygu medrau hanes disgyblion, ochr yn ochr â'u medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff hanes Cymru ei ystyried yn elfen 'ychwanegol' o gynllunio'r cwricwlwm yn hytrach na rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn ystyried hanes lleol a hanes Cymru o gwbl wrth gynllunio eu gwersi. Yn aml, mae hyn oherwydd diffyg gwybodaeth am yr ysgol leol a Chymru, neu orddibyniaeth ar adnoddau a luniwyd yn fasnachol.

## Astudiaeth achos: Hanes ar drothwy'r drws Ysgol Gynradd Albany

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Mae athrawon yn cyflwyno gwersi ar gyd-destun y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys digwyddiadau allweddol a sut beth oedd bywyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwersi'n cynnwys cyfleoedd i ymchwilio i bwnc, datblygu medrau cronoleg, ac archwilio barddoniaeth a cherddoriaeth. Caiff hyn ei ddilyn gan wythnos lansio 'prosiect Ysbyty Milwrol Albany', lle mae'r pennaeth yn herio disgyblion i rannu hanes yr ysgol â'r gymuned leol drwy arddangosfa gyhoeddus. Mae'r symbyliad gwreiddiol ar gyfer y prosiect yn cynnwys ffotograffau o filwyr yn gwella yn yr ysbyty. Mae disgyblion yn archwilio'r cynllun llawr i ddangos beth y defnyddiwyd rhannau gwahanol o'r ysgol ar ei gyfer, ac yn datblygu taith o'r wybodaeth hon fel rhan o arddangosfa. Mae disgyblion yn esbonio sut y defnyddiwyd ystafelloedd

dosbarth fel wardiau ysbyty ar gyfer hyd at wyth o gleifion, a'r ardal pelydr X yn y neuadd.

Mae'r disgyblion yn helpu i gynllunio a hyrwyddo'r arddangosfa a beth yr hoffent ei rannu drwy wefan benodol ar gyfer Ysbyty Milwrol Albany, sef https://albanymilitaryhospital.wordpress.com a chyfrif Twitter @Albany1914.

Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld ag Archifau Morgannwg i archwilio tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys llyfrau log yr ysgol o'r cyfnod. Galluogodd hyn iddynt ddysgu yr anfonwyd disgyblion o Ysgol Gynradd Albany i ysgolion cynradd eraill yn yr ardal rhwng 1914 a 1920.

Mae disgyblion yn cynnal arddangosfeydd i'r cyhoedd lle mae adeilad yr ysgol ar agor i ymweld ag ef ar ddydd Sadwrn. Mae'r disgyblion yn gwisgo mewn gwisg filwrol neu fel nyrsys o'r cyfnod. Mae disgyblion yn rhoi teithiau tywysedig o gwmpas adeilad yr ysgol, sy'n arwain at ailgread o ward ysbyty o'r Rhyfel Byd Cyntaf â gwlâu go iawn a disgyblion yn chwarae rôl meddygon a milwyr wedi'u hanafu. Caiff arddangosfeydd o waith celf, ysgrifennu a barddoniaeth disgyblion eu harddangos yn yr ysgol, a rhoddir perfformiadau cerddorol o gymysgedd o ganeuon o'r Rhyfel Byd Cyntaf drwy gydol y dydd.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae ymgysylltiad disgyblion â dysgu wedi gwella o ganlyniad i addysgu am hanes lleol go iawn a chreu cysylltiadau â hanes rhyngwladol.
- Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ymgysylltu ag adnoddau o ansawdd uchel, gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol a ffynonellau crai.
- Mae lles disgyblion wedi datblygu drwy ymdeimlad o falchder a hunaniaeth yn y gymuned leol.
- Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd disgyblion. Yn benodol, mae disgyblion wedi elwa ar gyfleoedd i gynllunio a rhoi teithiau tywysedig i aelodau o'r cyhoedd. Mae ysgrifennu wedi gwella, gan gynnwys cyfleoedd i ysgrifennu barddoniaeth a llythyrau.
- Mae cydweithio â grwpiau cymunedol ac unigolion wedi cynyddu.
- Mae'r arddangosfa wedi dod yn ddigwyddiad chwe-misol yn yr ysgol.
- Mae aelodau o deuluoedd y milwyr a dreuliodd amser yn yr ysbyty wedi ymweld â'r ysgol i gyfarfod â'r disgyblion a rhoi ffotograffau a ffeiliau ffeithiau o'u perthnasau. Mae hyn wedi galluogi'r prosiect i ddatblygu ac esblygu.

Mae Ysgol Gynradd St Woolos yng Nghasnewydd yn cipio dychymyg disgyblion ac yn datblygu eu hymdeimlad o berthyn a'u hymwybyddiaeth o hawliau a

democratiaeth drwy ei ffocws ar hanes lleol mudiad y Siartwyr. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar hyd llwybr gorymdaith y Siartwyr ym 1839. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn dysgu am chwe phwynt y siarter ac yn eu cymhwyso i gyd-destunau cyfredol, cyn iddynt gymryd rhan yn y daith gerdded flynyddol a'r ailgread o areithiau'r Siartwyr yn Sgwâr Westgate. Yn ystod hydref 2019, cymerodd yr ysgol ran ym mhrosiect Archarwyr 'Newport Rising', a gynhaliwyd gan elusen 'Y Siartwyr: Ein Treftadaeth'. Cydweithiodd disgyblion Blwyddyn 6 ag animeiddwyr a gwneuthurwyr ffilmiau i greu tîm o archarwyr â phwerau penodol i frwydro yn erbyn 'archddihirod' fel datgoedwigo, bwlio, gollwng sbwriel a distewi. Cyhoeddwyd gwaith y disgyblion mewn llyfr prosiect.

Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion a'u teuluoedd i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o arwyddocâd hanesyddol y Siartwyr, rôl Casnewydd o ran galw am ddiwygio gwleidyddol a sut mae hyn yn cysylltu â democratiaeth. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn perfformiadau yn helpu disgyblion i fagu hyder ac yn gwella eu medrau llafar ac ysgrifennu

Mae Ysgol Gynradd Cogan wedi ymrwymo i'r gred, er mwyn i hanes fod yn ddifyr ac yn ystyrlon i ddysgwyr a chipio eu dychymyg, mae'n hanfodol bod addysgu a dysgu'n dechrau drwy edrych ar ardal leol disgyblion cyn creu cysylltiadau â'r cyd-destun ehangach.

Dangosir llun du a gwyn o erthygl papur newydd o 1901 i ddisgyblion Blwyddyn 3 o Archie, sef eliffant Indiaidd a oedd yn perfformio â syrcas deithiol Sanger yng Nghasnewydd. Ar y ffordd i Gaerdydd, daeth Archie yn sâl a bu farw ym Mhenarth. Mae'r ysgol yn gwahodd artist tecstilau lleol a hanesydd lleol i gefnogi dysgu'r disgyblion wrth iddynt archwilio eu syniadau ynghylch gorffwysfan olaf Archie.

Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn astudio Cogan Pill House. Mae'r prosiect yn dechrau drwy ddosbarthu sgrôl i'r dosbarth yn gwahodd y disgyblion i fynychu gwledd Duduraidd yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn gwisgo gwisgoedd ar gyfer y digwyddiad. Maent yn dysgu am Cogan Pill House, sef plas Tuduraidd lleol, drwy ddefnyddio erthyglau papur newydd, ffotograffau a phaentiadau o'r archif, gwefannau a thystiolaeth gan aelodau o'r gymuned leol. Mae disgyblion yn chwarae rôl cymeriadau o'r oes Duduraidd ac yn defnyddio technoleg sgrin werdd i recordio eu gwaith.

Mae prosiect 'Street Spies and the Cogan Trail' yn galluogi disgyblion i ymchwilio i'r tai yng Nghogan drwy ddefnyddio gwybodaeth cyfrifiad a hen lyfrau log yr

ysgol i weld pwy oedd yn byw ym mhob tŷ. Mae'r disgyblion yn darganfod yr adeiladwyd tai yn yr ardal leol ar gyfer y docwyr a adeiladodd y dociau yn y 1860au. Mae'r disgyblion yn mynd ar daith gerdded i edrych ar enwau strydoedd a thai.

Er bod y rhan fwyaf o'r ysgolion y cysylltwyd â nhw yn cydnabod effaith mudiad Mae Bywydau Du o Bwys ar godi ymwybyddiaeth o addysgu hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n cynnwys hanesion amrywiol yn eu cwricwlwm. O'r ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar hanes pobl ddu rhyngwladol ac amrywiaeth diwylliannol mewn gwledydd eraill heblaw Cymru. Ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnwys cyfeiriadau at gaethwasiaeth mewn testunau. Yn ddiweddar, ailedrychodd ychydig o ysgolion ar eu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm er mwyn ymateb i ddigwyddiadau haf 2020 ac Mae Bywydau Du o Bwys i nodi cyfleoedd i gynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac adolygu cyd-destun yr hyn sy'n cael ei addysgu ar hyn o bryd, er enghraifft wrth addysgu am y preifatîr, Henry Morgan, a'i gysylltiadau â'r fasnach gaethion. At ei gilydd, mae darpariaeth ar ei chryfaf mewn ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd amlddiwylliannol ac amrywiol o Gymru.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn adolygu eu cynlluniau ac yn diwygio darpariaeth i adlewyrchu newidiadau i'r cwricwlwm ac ymateb i ddiddordebau disgyblion a digwyddiadau cyfredol. Mae athrawon yn defnyddio llais y disgybl i gynnwys disgyblion wrth ddewis testunau. Ym mwyafrif yr ysgolion, lle mae hyn yn gweithio'n dda, caiff disgyblion gyfleoedd i ddewis yr agweddau ar hanes lleol a hanes Cymru yr hoffent eu hastudio. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae athrawon yn tywys disgyblion yn fedrus i ystyried sawl safbwynt mewn hanes, gan gynnwys profiadau unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

# Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Talycopa

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Yng ngwanwyn 2017, fel rhan o brosiect trawsgwricwlaidd yn y clwstwr, cynlluniodd staff destun ysgol gyfan o'r enw 'EPIC Wales'. Prosiect oedd hwn yn gysylltiedig â'r ymgyrch dwristiaeth #FindYourEpic, a oedd â'r nod o annog

twristiaeth yng Nghymru. Hefyd, cymerodd yr ysgol ran yng nghynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn canolbwyntio ar chwedlau am ddreigiau a chestyll yng Nghymru. Arweiniodd y lefelau uchel o ymgysylltiad a brwdfrydedd disgyblion tuag at y testunau hyn at staff yn adolygu cynlluniau'r ysgol gyfan ar gyfer hanes a diwylliant Cymru.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Cynlluniodd athrawon destunau a oedd yn sicrhau cysylltiadau cryf â hanes a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y cyd-destun lleol, cyn symud ymlaen i gysylltiadau cenedlaethol a byd-eang. Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau at y broses gynllunio er mwyn ennyn eu diddordeb a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn astudio'r testun 'Pits and Ponies to Eco Power'. Mae'r testun yn dechrau drwy edrych ar bwysigrwydd mwyngloddio yn ardal Llansamlet, gan gynnwys tirnodau lleol fel Scott's Pit. Mae athrawon yn seilio gwaith llythrennedd ac ysgrifennu creadigol ar y nofel 'The Darkest Days' gan Gareth F. Williams, sy'n archwilio trychineb glofa Senghennydd. Mae disgyblion yn ymweld â Pharc Treftadaeth y Rhondda i gael profiad o'r pyllau glo a bywydau'r glowyr. Mae cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm yn cynnwys celf, lle mae disgyblion yn astudio paentiadau Valerie Ganz, a ddarluniodd lowyr Cymreig yn ystod y 1980au. Mae disgyblion yn ymchwilio i waith Aneurin Bevan fel ffigur allweddol yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Dysgant am ei rôl fel glöwr a'i waith yn hyrwyddo hawliau glowyr ac yn sefydlu'r GIG. Yna, mae'r testun yn edrych ar y symudiad at eco-bŵer a ffermydd gwynt yng Nghymru, a sut mae ffynonellau pŵer gwahanol wedi esblygu. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau a gweithdai i edrych ar ddatgoedwigo, newid yn yr hinsawdd a'r angen am eco-bŵer.

Mewn testun o'r enw 'Time Travellers Wales', astudiodd disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 ystod o gyfnodau hanesyddol, yn dechrau â hanes y Celtiaid yng Nghymru. Dysgant am Owain Glyndŵr, a chwedlau fel chwedl Dinas Emrys, cyn teithio drwy amser i astudio ceisiadau i guro'r record cyflymder ar dir ar Draeth Pentywyn. Mewn celf, mae disgyblion yn astudio gwaith yr artist lleol, Nick Holly, ac yn creu gemwaith cwlwm Celtaidd.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o sut mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei hanes a'i diwylliant yn cydberthyn â gweddill y byd.
- Mae disgyblion yn ymgysylltu ac yn ymroi eu hunain i'w gwaith yn fwy oherwydd y defnydd o lais y disgybl.

# Ysgolion uwchradd

Mewn llawer o ysgolion, mae cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer hanes lleol a hanes Cymru yng nghyfnod allweddol 3 yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys cyfeiriadau brysiog neu wersi un-tro ar hanes lleol a hanes Cymru. Nid yw llawer ohonynt yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes lleol a hanes Cymru drwy greu cysylltiadau ar draws cyfnodau hanesyddol. Nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes Cymru yng nghyd-destun ehangach hanes y Deyrnas Unedig a hanes rhyngwladol, a chaiff cyfleoedd i gysylltu digwyddiadau o hanes lleol a hanes Cymru eu colli. Hefyd, caiff disgyblion ychydig iawn o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau hanesyddol yng nghyd-destun hanes Cymru.

Mewn ychydig o ysgolion, caiff cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru eu cynllunio a'u datblygu'n ofalus mewn hanes ac ar draws meysydd y cwricwlwm. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gydlynol o'u hardal leol a Chymru. Nid oes gan lawer o arweinwyr ysgolion uwchradd ddarlun digon clir o ble mae hanes lleol a hanes Cymru yn cael eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn arwain at ailadrodd testunau a disgyblion yn cwblhau gwaith tebyg mewn meysydd pwnc gwahanol.

Fel rhan o'i gwaith paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, mae Ysgol David Hughes wedi canolbwyntio cwricwlwm Blwyddyn 7 ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a Chymru. Mewn gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau a chwedlau lleol, fel gwrachod Llanddona. Mewn Saesneg, maent yn edrych ar longddrylliadau yng Nghymru a chysylltiadau Cymru â'r Titanic. Yn y dyniaethau, mae disgyblion yn astudio'r ardal leol, gan gynnwys hanes tywysogion Cymru. Yn y celfyddydau mynegiannol, mae disgyblion yn astudio uned ar 'cynefin ' a'r môr, gan gynnwys caneuon Cymreig a gwaith artistiaid o Gymru. Mae disgyblion yn mwynhau'r ffocws ar Gymru ac yn creu cysylltiadau rhwng ac ar draws meysydd pwnc, ac â digwyddiadau rhyngwladol.

Mae lleiafrif o ysgolion yn arbrofi â dulliau amgen o addysgu hanes fel rhan o'u paratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys gosod cwestiynau ymholi, archwilio cysyniadau a themâu hanesyddol ac, mewn ychydig o ysgolion, gwersi'r dyniaethau lle gwneir cysylltiadau ar draws pynciau ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Mae ychydig o'r ysgolion hyn yn cynnwys hanes lleol a hanes Cymru yn eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, ac yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu a phrofiad.

# Astudiaeth achos: Ysgol Gyfun Bro Myrddin

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ym Maes Dysgu a Phrofiad y dyniaethau. Caiff gwersi daearyddiaeth, hanes ac addysg grefyddol eu haddysgu fel y dyniaethau ym Mlwyddyn 7. Caiff hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol eu haddysgu fel pynciau ar wahân ym Mlwyddyn 8 a Blwyddyn 9.

Cytunodd cyfadran y dyniaethau y dylai'r cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol 3 ganolbwyntio'n gryf ar yr ardal leol a 'chynefin', Cymru a'i chysylltiadau â'r byd ehangach. Mae'r adran hanes yn nodi y caiff hyn ei wneud i wrthbwyso hanes TGAU a Safon Uwch, lle mae llai o bwyslais ar hanes lleol a hanes Cymru.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Yn dilyn digwyddiadau haf 2020 a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, datblygodd adran y dyniaethau uned waith yn ymwneud â themâu ymfudo ac amlddiwylliannaeth ar gyfer Blwyddyn 7. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion feddwl am hunaniaeth a beth mae'n ei olygu i fyw mewn Cymru amlddiwylliannol. Maent yn archwilio hiliaeth gyfundrefnol, rhagfarn ac arwahanu, a chyfraniadau cymunedau ac unigolion o leiafrifoedd ethnig i Gymru.

Mae'r adran hanes wedi datblygu uned fawr o waith ar hanes Caerfyrddin ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9. Mae gwersi'n cynnwys mynd â disgyblion ar 'daith' drwy Gaerfyrddin dros y canrifoedd. Mae'r uned yn cynnwys Moridunum Rhufeinig, Caerfyrddin fel canolfan fasnach ganoloesol, trosedd a chosb dros y canrifoedd, y tloty, gwrthdystio, hamdden, a chyfraniadau pobl leol i Gymru. Addasodd yr adran yr uned i gynnwys dadl ynghylch p'un a ddylid tynnu cerflun Thomas Picton oherwydd ei gysylltiadau â'r fasnach gaethion. Mae disgyblion yn ymweld â safleoedd allweddol yn y dref, fel y carchar, y tloty a Maes Nott. Mae disgyblion yn llunio prosiect personol ar sut a pham y mae Caerfyrddin wedi datblygu dros y canrifoedd.

Gwneir cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm drwy weithgareddau allgyrsiol sy'n canolbwyntio ar hanes lleol. Arweiniodd yr uned ar hanes lleol at greu ap hanes ar gyfer Caerfyrddin. Comisiynodd a pherfformiodd yr ysgol sioe gerdd, 'Heol Penlan', wedi'i seilio ar hanes dwy stryd gyfagos yng Nghaerfyrddin.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhau at ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth a'u cymuned mewn cyd-destun lleol, Cymreig a rhyngwladol.
- Mae nifer y disgyblion sy'n dewis hanes TGAU a Safon Uwch yn cymharu'n dda â phynciau sylfaen eraill.
- Mae hanes lleol a hanes Cymru yn cryfhau'r ffocws ar ddiwylliant Cymru fel rhan o ethos yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn datblygu'r modd y mae'n cynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan annatod o hanes Cymru.

Mewn ychydig o enghreifftiau effeithiol dros ben, mae adrannau hanes yn cynllunio eu cwricwlwm yn strategol, yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu, a'r ffordd orau i ddatblygu addysgeg pwnc effeithiol. Wrth feddwl am gynnwys eu cwricwlwm, mae'r adrannau hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwybodaeth, datblygu dealltwriaeth disgyblion o gyd-destunau a medrau, a dylunio cyfleoedd ystyrlon i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r adrannau hyn yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys cynllunio cwestiynau ymholi treiddgar sy'n ysgogi ac yn herio disgyblion i feddwl yn ddwfn.

Mae lleiafrif o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn dechrau cynllunio ac arbrofi â sut y gallant gynnwys mwy o hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm cyfnod allweddol 3. Mae testunau'n canolbwyntio'n bennaf ar hanes rhyngwladol, gan gynnwys profiadau pobl ddu yn America yn y 1920au, Mudiad Hawliau Sifil America ac apartheid yn Ne Affrica. Ychydig iawn o ysgolion sy'n addysgu disgyblion am gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i hanes Cymru. Lle caiff hyn ei wneud yn dda, mae dulliau'n cynnwys dewis cwestiynau ymholi sy'n galluogi disgyblion i archwilio safbwyntiau gwahanol a hanesion amryfal. Er enghraifft, wrth astudio'r chwyldro diwydiannol yng Nghymru, mae un ysgol wedi datblygu cyfleoedd i ddisgyblion archwilio cysylltiadau Cymru â chaethwasiaeth, a diddymwyr a gwrthddiddymwyr Cymreig.

Mae uned cyfeirio disgyblion Sir Ddinbych yn Ysgol Plas Cefndy yn datblygu ac yn archwilio ymholiad hanesyddol wedi'i seilio ar y cwestiwn 'Pam mae gan Venus Williams gyfenw Cymreig?' Mae disgyblion yn archwilio ac yn trafod cysylltiadau Cymru â'r fasnach gaethion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymchwilio ac ystyried effaith y gorffennol ar gymdeithas heddiw, a materion fel hiliaeth gyfundrefnol, rhagfarn ac Mae Bywydau Du o Bwys. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o Gymru fel cenedl amlddiwylliannol.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes gan athrawon lawer o wybodaeth am yr hyn y mae dysgwyr wedi'i ddysgu am hanes lleol a hanes Cymru yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn ailadrodd testunau a gweithgareddau. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion cynradd clwstwr yn cydweithio â'u hysgol uwchradd i gytuno ar yr hyn sy'n cael ei addysgu mewn hanes, gan gynnwys hanes lleol a hanes Cymru, yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae hyn yn galluogi ysgolion i gynllunio ar gyfer addysgu hanes, a sut maent yn creu cysylltiadau rhwng hanes lleol, hanes Cymru a hanes byd-eang. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio ar gyfer dilyniant pan fyddant, neu os byddant, yn cynnwys testunau ar hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cyfleoedd disgyblion i astudio ystod o destunau a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gyfyngedig. Mae ffactorau sy'n effeithio ar hyn yn cynnwys:

- ailadrodd testunau yng nghyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac, mewn rhai achosion, yn y chweched dosbarth
- ffocws athrawon yng nghyfnod allweddol 3 ar sut i ateb cwestiynau TGAU, sy'n cyfyngu ar ddisgyblion yn datblygu medrau hanesyddol ehangach
- mabwysiadu cyfnod allweddol 4 sy'n para tair blynedd, sy'n culhau ehangder y profiadau sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3

Yng nghyfnod allweddol 4, mae adrannau hanes yn dewis unedau i'w hastudio o'r rhai sy'n cael eu cynnig gan y bwrdd arholi. Cytuna'r rhan fwyaf o ysgolion fod y ffocws ar hanes Cymru wedi'i gryfhau pan ddiwygiwyd y manylebau TGAU i'w haddysgu o 2016. Dywed ysgolion bod y gofyniad i ddewis un astudiaeth fanwl ar 'Cymru a'r persbectif ehangach', a chynnwys cwestiynau arholiad sy'n gofyn i ddisgyblion gyfeirio at y safbwynt Cymreig, wedi cael effaith gadarnhaol ar faint o hanes Cymru sy'n cael ei astudio. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ystyried arbenigedd athrawon, yr adnoddau sydd ar gael, argaeledd dysgu proffesiynol, lefel y diddordeb sy'n cael ei dangos gan ddisgyblion, pa mor anodd y mae testunau'n gysyniadol, a maint y cynnwys wrth ddewis unedau i'w hastudio. Mae lleiafrif o ysgolion yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau a dysgu proffesiynol ar hanes Cymru fel rhesymau pam y maent yn osgoi dewis unedau penodol. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn elwa'n llawn ar y dimensiwn Cymreig, gan eu bod yn canolbwyntio ar ofynion penodol yr arholiadau'n unig.

Mae cyfleoedd disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng nghyfnod allweddol 4 yn dibynnu ar y pynciau maent yn eu dewis ar gyfer TGAU a'r unedau y mae'r ysgol yn eu dewis. Mewn hanes, gall

ysgolion ddewis astudio ‘UDA: Gwlad Gwahaniaethau’ neu ‘Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994’ fel astudiaethau manwl, a ‘Newidiadau ym Mhatrymau Mudo’ fel astudiaeth thematig. Fel yng nghyfnod allweddol 3, ychydig iawn o gyfle sydd i astudio hanes cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Ychydig iawn o ysgolion, sef y rhai sydd â nifer fawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig fel arfer, sy’n ystyried cefndir ethnig eu disgyblion wrth ddewis unedau i’w hastudio.

Mewn hanes UG a Safon Uwch, mae ysgolion yn dewis unedau astudio o’r rhai sy’n cael eu cynnig gan y bwrdd arholi. Rhaid iddynt ddewis seilio naill ai’r astudiaeth o gyfnod neu’r astudiaeth fanwl ar agweddau ar hanes Cymru a Lloegr. Mae faint o hanes Cymru sydd wedi’i gynnwys yn yr unedau yn amrywio rhwng y testunau, sy’n caniatáu i ysgolion ddewis addysgu am Gymru neu beidio. Mae ysgolion yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau fel y prif reswm pam maent yn dewis peidio ag astudio unedau sy’n cynnwys mwy o hanes Cymru. Mae cyfleoedd i astudio hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar Safon Uwch mewn unedau ar hanes America, er enghraifft cyfleoedd i astudio’r rhyfel sifil a hawliau sifil. Mae ychydig o ysgolion o’r farn bod manyleb yr arholiadau’n rhwystr rhag addysgu mwy o hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae’r ysgolion arbennig y cysylltwyd â nhw yn datblygu cwricwlwm sy’n ymateb i anghenion eu disgyblion, ac yn canolbwyntio ar brofiadau dilys a chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau. Mae’r ysgolion hyn yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a Chymru. Er enghraifft, mae un ohonynt yn defnyddio’r thema ‘Fi, fy hunan a’m cymuned’ (‘Me, myself and my community’) i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu i ddefnyddio eu synhwyrau. Mae un arall yn defnyddio’r thema cestyll a chwedlau fel cyd-destun i ddatblygu medrau disgyblion. Mae ysgolion arbennig yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gael profiad o ddiwylliannau eraill drwy gerddoriaeth, dathliadau a bwyd. Maent yn dechrau ystyried sut gallant wella eu dull o addysgu amrywiaeth.

Mae ychydig iawn o ysgolion cynradd ac uwchradd yn archwilio neu’n mapio eu darpariaeth ar gyfer addysgu amrywiaeth a chynrychiolaeth cyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn hanes ac ar draws y cwricwlwm. Nid yw ysgolion yn cynllunio sut gallant gynnwys testunau fel gwrth-hiliaeth, tuedd ddiarwybod, rhagfarn ac amrywiaeth yn ddigon da.

Fel rhan o’i pharatoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, edrychodd Ysgol Stanwell ar ba mor dda mae’n cynrychioli ac yn cynnwys profiadau unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar draws y cwricwlwm. Amlinellodd adrannau pwnc eu darpariaeth gyfredol a chyfleoedd i ddatblygu ymhellach, gan gynnwys cysylltiadau ag adnoddau posibl. Mae hyn wedi codi

ymwybyddiaeth athrawon o bwysigrwydd cynrychiolaeth a chynhwysiant wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm. Er enghraifft, mewn drama yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn astudio rhagfarn, ystrydebau a gwahaniaethu. Mae'r adran yn archwilio sut y gall gynnwys gwaith gan ysgrifenwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn gwersi. Mewn gwersi hanes, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn astudio mudo dros amser, gan gynnwys effaith y Rhufeiniad, Tuduriaid Du a datblygiad Tiger Bay.

# Addysgu

Mewn ysgolion cynradd, mae ansawdd addysgu am hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dibynnu ar ansawdd cyffredinol yr addysgu yn yr ysgol. Mae hefyd yn dibynnu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddisgyblaethol athrawon, gan gynnwys addysgeg yn benodol i'r pwnc. Mae gan fwyafrif yr athrawon wybodaeth bynciol gyffredinol briodol am ardal leol eu hysgol a hanes Cymru. Hefyd, mae ganddynt wybodaeth bynciol addas am hanes rhyngwladol Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r athrawon hyn yn ymchwilio i destunau i gywain gwybodaeth ac adnoddau i ddatblygu eu gwybodaeth bynciol eu hunain a chefnogi dysgu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Nid oes gan y rhan fwyaf o athrawon y wybodaeth i addysgu disgyblion yn effeithiol am gyfraniadau unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i hanes Cymru. Mae athrawon yn ofni y byddant yn 'dweud y peth anghywir' wrth addysgu disgyblion am hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. O ganlyniad, mae profiadau dysgu disgyblion yn ymwneud ag amrywiaeth yng Nghymru a gwledydd eraill yn gyfyngedig.

Mewn ysgolion uwchradd, mae ansawdd yr addysgu am hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dibynnu'n gyffredinol ar ansawdd yr addysgu yn yr adran yn gyffredinol. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, caiff gwersi hanes a'r dyniaethau eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Lle mae athrawon yn llai hyderus o ran eu harbenigedd pwnc neu'r testun sy'n cael ei addysgu, yn aml nid ydynt yn cynnig lefel briodol o her i ddisgyblion. Rhoddant dasgau i ddisgyblion sy'n eu cadw'n brysur yn hytrach nag yn datblygu eu medrau hanes, nid ydynt yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng hanes lleol, hanes Cymru a hanes rhyngwladol. Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol briodol am hanes rhyngwladol Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ond nid oes ganddynt wybodaeth am gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at hanes Cymru.

Cynhaliom arolwg o rieni a gofalwyr sy'n perthyn i Grŵp Cyfeirio Rhieni a Gofalwyr Estyn. Credai bron i 24% o'r ymatebwyr fod ysgol eu plentyn yn addysgu hanes lleol yn dda, ac mae bron i 15% o rieni o'r farn bod ysgol eu plentyn yn addysgu hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn dda. Mae ychydig dros hanner y rhieni o'r farn y gallai ysgol eu

plentyn wneud mwy i hyrwyddo hanes a diwylliant Cymru. Credai bron i 60% o rieni y gallai ysgolion wneud mwy i hyrwyddo hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion y cysylltwyd â nhw, mae staff yn teimlo'n ansicr ynghylch sut y dylent fynd i'r afael â thestunau sy'n cynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mewn llawer o achosion, mae staff yn poeni y gallant ddweud y peth anghywir ac, o ganlyniad, maent yn osgoi pynciau a thrafodaethau sensitif wrth addysgu. Dywed llawer o athrawon nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am agweddau ar hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'w galluogi i addysgu'r pynciau hyn yn hyderus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thestunau fel gwladychiaeth, y fasnach gaethion a phrofiadau cenhedlaeth Windrush. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at addysgu camsyniadau am brofiadau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn hanes, neu atgyfnerthu ystrydebau.

Yn y gwersi mwyaf effeithiol ar gyfer hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau hanes, ochr yn ochr â'u medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a'u medrau meddwl. Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn cynllunio sut maent yn cyflwyno cysyniadau disgyblaethol a gwirioneddol er mwyn sicrhau dilyniant yn nealltwriaeth disgyblion o'r cynnwys
- yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol ac sydd wedi'u trefnu i fanteisio i'r eithaf ar gynnydd
- yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau ar draws testunau a chyfnodau hanesyddol
- yn defnyddio ystod o ffynonellau crai, gan gynnwys ffynonellau cynradd, i ennyn diddordeb disgyblion a sicrhau bod eu dysgu'n ddilys ac yn symbylol
- yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion werthuso tystiolaeth
- yn galluogi disgyblion i ystyried amryfal safbwyntiau a dehongliadau
- yn cynnig cyfleoedd i ystyried arwyddocâd digwyddiadau, newidiadau ac unigolion hanesyddol
- yn cynllunio tasgau llythrennedd, rhifedd a TGCh dilys ac ystyrlon

# Cyfoethogi

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynllunio profiadau cyfoethogi gwerthfawr i'w disgyblion, gan gynnwys ymweliadau â mannau o ddiddordeb lleol. Mewn llawer ohonynt, caiff ymweliad ei ddefnyddio'n fan cychwyn ar gyfer gwaith testun i symbylu diddordeb disgyblion yn y pwnc a chefnogi gwaith pellach yn yr ystafell ddosbarth. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn manteisio ar wybodaeth arbenigol staff sy'n gweithio yn y mannau o ddiddordeb hyn. Gall hyn gynnwys ymgysylltu â staff cyn yr ymweliad i gynllunio profiadau a chasglu adnoddau, gan gynnwys ffynonellau cynradd ac arteffactau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae ysgolion cynradd yn nodi sawl rhwystr rhag

ymweld â mannau o ddiddordeb, fel costau llogi cludiant i ddisgyblion, y niferoedd a all ymweld ar yr un pryd, ac argaeledd cyfleusterau, gan gynnwys toiledau a mannau addas i fwyta cinio.

Trefnodd Ysgol Gynradd Talycopa ymweliad i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, i archwilio'r arddangosfeydd ar ddyfeiswyr a dyfeisiadau. Paratôdd disgyblion gwestiynau i gyfweld ag actor oedd yn chwarae rôl Richard Trevithick, a gwisgo fel perchnogion y gwaith haearn i chwarae rôl sut y byddant yn gofyn i Richard Trevithick i ddyfeisio rhywbeth i symud haearn.

# Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Pilgwenlli

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae staff yn deall pwysigrwydd datblygu ymdeimlad o berthyn yng nghymuned yr ysgol. Eu nod yw cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol, a rhoi sylw craff i ganran uchel y teuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n byw'n agos at yr ysgol.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Ymwelodd disgyblion ag amgueddfa 'deithiol' a grëwyd i ddangos natur amrywiol a chymhlethdod poblogaeth Pilgwenlli. Roedd yr amgueddfa'n canolbwyntio ar fywyd ym Mhilgwenlli, Casnewydd a Chymru. Roedd disgyblion yn frwdfrydig iawn i weld a chyffwrdd ystod o arteffactau â'u hysbrydolodd i ofyn cwestiynau am yr ardal a'u cymuned.

O ganlyniad i ddiddordeb y plant ar ôl ymweld â'r amgueddfa, penderfynodd staff ddatblygu dysgu disgyblion ymhellach drwy drefnu prosiect trawsgwricwlaidd ar ddociau'r ddinas, sydd wedi chwarae rhan sylweddol o ran diffinio'r gymuned leol.

Cynlluniodd athrawon weithgareddau i helpu disgyblion i fod â dealltwriaeth glir o ddiben y dociau a'u rôl mewn cludo cargo. Trafododd disgyblion y gwledydd posibl y daeth y llongau ohonynt, beth oedd eu cargo, ble'r oedd ei angen a'r elw y gellid ei wneud. Trafodont effaith y fasnach ar y gymuned leol, a sut daeth

Pilgwenlli, Casnewydd a Chymru yn fwy amrywiol yn ethnig oherwydd ymfudiad gweithwyr y llongau a'r docwyr. Cyfunodd y plant eu gwybodaeth i greu dealltwriaeth glir o waith doc Casnewydd.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae'r prosiect bach trawsgwricwlaidd yn canolbwyntio ar gyfraniadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn lleol ac yn rhyngwladol, a phwysigrwydd cymunedau amrywiol mewn cymdeithas. Teimlai disgyblion a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yr ysgol fod hyn yn cydnabod pwysigrwydd eu hanes a'u cyfraniad i'r gymdeithas.
- Mae disgyblion yn canolbwyntio'n bennaf ar sut mae gweithwyr, llongau a chargo yn teithio'r byd drwy hanes a daearyddiaeth. Mae disgyblion yn archwilio'r rhesymau pam mae teuluoedd yn penderfynu dilyn gweithwyr ac ymgartrefu ym Mhilgwenlli. Mae disgyblion yn edrych ar effaith y penderfyniadau hyn ar y gymuned gyfredol i gydnabod y gymdeithas fywiog ac amrywiaeth maent yn byw ynddi.Mae disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd i gyfrifo pellter, cost ac elw.
- Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gliriach o hunaniaeth. Arweiniodd y prosiect at sylweddoli y gall hunaniaeth fod yn ymdeimlad o berthyn i fwy nag un diwylliant/treftadaeth. Mae disgyblion yn deall y gall hunaniaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a hunaniaeth Gymreig ymblethu â'i gilydd, ac nid ydynt yn nacau'r naill a'r llall.
- Cododd y prosiect broffil cyfraniad y gymuned Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i sut mae Pilgwenlli, Casnewydd a Chymru wedi datblygu dros y ganrif ddiwethaf.

Mae Ysgol Gynradd Dowlais ym Merthyr Tudful yn cydweithio'n agos â'r swyddog addysg yng Nghastell Cyfarthfa i gasglu adnoddau i gefnogi addysgu hanes lleol a hanes Cymru. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dysgu am y gwaith haearn yn Nowlais yng nghyd-destun y chwyldro diwydiannol yn ne Cymru. Mae disgyblion yn ymweld â Chastell Cyfarthfa a bwthyn Joseph Parry i ddysgu am unigolion lleol nodedig. Yn 2019, cwblhaodd disgyblion waith ar 'Fenywod nodedig Merthyr Tudful' ('The remarkable women of Merthyr Tydfil') ar gyfer prosiect gwobr treftadaeth genedlaethol:

- Laura Ashley
- Santes Tydfil
- Y Foneddiges Charlotte Guest

- Edith Gertrude Phillips
- Y Foneddiges Crawshay

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ddarpariaeth addas i hyrwyddo diwylliant Cymreig drwy weithgareddau'r cwricwlwm a digwyddiadau ehangach yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn cynnig cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol yn yr ysgol, yn y gymuned leol ac yn genedlaethol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae arweinwyr yn defnyddio Eisteddfod flynyddol yr ysgol yn gyfle i hyrwyddo diwylliant Cymreig traddodiadol a chyfoes. Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn yn defnyddio eu Heisteddfod fel diweddglo thema ysgol gyfan ar Gymru, gan gynnwys dysgu am yr ardal leol, a hanes a diwylliant ehangach Cymru. Yn yr arfer orau, mae'r Eisteddfod yn rhan o ddull systematig a pharhaus yr ysgol o ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru. Caiff ei ddefnyddio'n gyfle i gyfoethogi profiadau a dealltwriaeth disgyblion mewn rhaglen o gyfleoedd sydd wedi'u cynllunio ar hyd y flwyddyn ysgol.

Mewn ysgolion cynradd lle y gwelir arfer orau, mae staff yn cynllunio cyfleoedd i breswylwyr a grwpiau lleol rannu eu profiadau a hanes yr ardal leol, a'i chymunedau, mewn ffordd ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau amrywiol, amlethnig yn gwahodd grwpiau ac unigolion o'r gymuned leol i siarad am ddiwylliannau, credoau, traddodiadau a hanesion gwahanol. Mae ysgolion mewn ardaloedd llai amrywiol yn ei chael yn anoddach creu cysylltiadau ag ystod o grwpiau neu unigolion amlethnig. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio technoleg ddigidol i hwyluso sgyrsiau am ddiwylliannau a hanesion gwahanol dan unigolion a grwpiau nad ydynt yn byw'n lleol. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi meithrin partneriaeth ag ysgolion mewn ardaloedd amrywiol, amlethnig i alluogi disgyblion i gydweithio â'i gilydd.

Cydweithiodd Ysgol Y Bynea â Chymdeithas Hanesyddol y Bynie dros nifer o flynyddoedd, lle mae aelodau'r gymdeithas yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i roi hanes llafar ar bynciau hanesyddol. Hefyd, mae'r Gymdeithas Hanesyddol yn cynnal arddangosfeydd yn y neuadd bentref leol, lle caiff stondinau eu gosod i ddangos bywyd yn y Bynie a Llwynhendy yn y gorffennol. Mae disgyblion yn ymweld â'r arddangosfa i ddysgu am y gwaith tun a dur, cloddio glo, Bragdy Buckley, llongau a oedd yn cludo deunyddiau o'r Bynie, ac unigolion lleol fel y chwaraewr rygbi, Terry Davies. Mae disgyblion yn sgwrsio â'r 'stondinwyr' sy'n esbonio sut y defnyddiwyd arteffactau gwahanol yn y gorffennol.

Cydweithiodd Ysgol Gynradd Talwrn â changen leol Merched y Wawr i gasglu gwybodaeth am hanes yr ysgol a'r pentref. Ymwelodd aelodau Merched y Wawr â'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgaredd marchnad, lle yr ymwelodd disgyblion â 'stondinau' i wrando ar ddisgrifiadau o hanes lleol a thrin arteffactau. Er enghraifft, dysgodd disgyblion am 'Lôn Bwbach', sef y ffordd Rufeinig y dywedir bod ysbryd arni. Galluogodd grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddisgyblion recordio eu dysgu drwy farddoniaeth, cerddoriaeth, cyfansoddiadau, drama ac animeiddiadau. Cyflwynodd y disgyblion y prosiect ar ffurf rhaglen deledu yn debyg i 'Heno'. Oherwydd COVID-19, rhannwyd y prosiect terfynol ar-lein fel digwyddiad byw ar blatfform digidol. Elwodd disgyblion ar y cyfle i weithio â chenedlaethau eraill yn y gymuned leol.

Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon yn adrodd storïau gwerin i ddisgyblion yn rheolaidd i'w helpu i wybod am bobl a chwedlau enwog o'r gorffennol. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn adrodd storïau mewn gwasanaethau, yn ystod amser stori dosbarthiadau neu drwy gyflogi grwpiau allanol i gyflwyno dramâu.

Yn ystod y pandemig COVID-19 yn ddiweddar, gweithiodd disgyblion yn Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer yn Nhorfaen ar brosiect treftadaeth ar chwedlau lleol yn ymwneud â'r cerrig ar Fynydd Garnclochdy. Cydweithiodd disgyblion ag artist lleol drwy gyfres o sesiynau gweithdy rhithiol. Cyflwynwyd y prosiect fel cyfres o heriau:

- Her 1: Beth yw prif nodweddion chwedl? Beth sy'n gwneud chwedl yn gyffrous? Cyd-destun lleol Mynydd Garnclochdy.
- Her 2: Dod i adnabod eich tirwedd leol – Gwaith celf creadigol wedi'i seilio ar y trefniant cerrig ar Fynydd Garnclochdy.
- Her 3: Datblygu ysgrifennu creadigol wedi'i seilio ar nodweddion atmosfferig tirwedd Mynydd Garnclochdy.
- Her 4: Datblygu cymeriadau a lleoliadau i ysgrifennu stori wedi'i seilio ar Sant Cadog – Eglwys Sant Cadog, Trefddyn – Paentiadau Canoloesol a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn Eglwys Sant Cadog, Llancarfan – Stori Culhwch ac Olwen (Y Mabinogi) – Cyd-destun lleol Mynydd Garnclochdy a Chwmffrwdoer.

Arweiniodd y prosiect at gyhoeddi gwaith y disgyblion ar ffurf llyfr, a roddodd berthnasedd, diben a dilysrwydd i'r prosiect.

Mewn llawer o'r ysgolion uwchradd y cysylltwyd â nhw, mae adrannau hanes a Chymraeg yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â mannau o ddiddordeb hanesyddol yn yr ardal leol yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r ymweliadau hyn yn cynnwys teithiau i gestyll, amgueddfeydd, adeiladau hanesyddol a theithiau cerdded, gan gynnwys ymweld â chofebion rhyfel. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn cynnig ymweliadau rhyngwladol â mannau o ddiddordeb hanesyddol, er enghraifft meysydd y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngwlad Belg a gogledd Ffrainc, Auschwitz, Efrog Newydd a Washington DC. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau â hanes lleol a hanes Cymru wrth ymweld â safleoedd dramor, er enghraifft drwy archwilio profiadau mewnfudwyr Cymreig i UDA yn Ellis Island, ac ymweld â beddau milwyr Cymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf wrth ymweld â Gwlad Belg a gogledd Ffrainc. Gwna ychydig o ysgolion uwchradd addasiadau i'w hamserlen ysgol er mwyn galluogi adrannau i drefnu teithiau addysgol, yn enwedig yn ystod tymor yr haf. Mae hyn yn galluogi ysgolion i ryddhau nifer ddigonol o staff i gefnogi ymweliadau.

Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu â grwpiau neu gymdeithasau hanes lleol. Mae unigolion yn ymweld ag ysgolion i roi gwybodaeth am ddigwyddiadau hanesyddol lleol neu gyfrannu at ymweliadau â mannau o ddiddordeb lleol. Mae ychydig o ysgolion yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â chynrychiolwyr o grwpiau addysgol ac elusennau i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon neu Ddiwrnod Coffa'r Holocost.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn cynnig rhai cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal Eisteddfod ysgol i ddathlu diwylliant Cymru. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae hwn yn ddigwyddiad arunig, ac nid yw cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymreig traddodiadol a chyfoes wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnig cyfleoedd helaeth a chreadigol i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy gomisiynu sioeau cerdd i adrodd storïau a chwedlau lleol a Chymreig. Mae hyn yn gryfder arbennig yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae amrywiaeth ethnig ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru yn amrywio'n fawr. Mae llawer o ysgolion mewn ardaloedd trefol mawr yn ne Cymru yn cynnwys disgyblion o ystod o gefndiroedd amrywiol, ond mae ysgolion mewn ardaloedd mwy gwledig yn dueddol o fod yn llai amrywiol. Mae mwyafrif o ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a diwylliant grwpiau o ddisgyblion yn eu hysgolion. Gallai hyn gynnwys testunau'n ymwneud â hanes a diwylliant gwledydd neu bobl benodol, digwyddiadau ysgol gyfan i helpu i hybu dealltwriaeth o ddiwylliannau gwahanol, a chyfleoedd i ddisgyblion rannu eu diwylliant a'u traddodiadau eu hunain.

Yn Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn a Sant Mihangel yn y Fenni, mae disgyblion Ffilipinaidd yn siarad â balchder a chyffro am y cyfle y mae'r ysgol yn ei gynnig i arwain gwasanaethau ysgol gyfan am Ynysoedd y Philipinas. Mae disgyblion eraill yn mynegi sut mae'r digwyddiadau hyn wedi rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu mwy o hanes a diwylliant eu cyd-ddisgyblion.

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Yn 2015, nododd staff yn yr ysgol fod datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau gwahanol yn faes i'w ddatblygu. Roedd staff yn cydnabod bod cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol ac ymfudo yn gyfyngedig yng nghymuned wledig yr ysgol, sy'n wyn yn bennaf.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Prynodd yr ysgol lyfrau i'w defnyddio yn y dosbarth a oedd yn dathlu diwylliannau gwahanol, a chynllunio gwaith dosbarth o gwmpas y llyfrau hyn. Ar yr un pryd, mabwysiadodd yr ysgol ddull a oedd yn canolbwyntio ar yr egwyddorion y tu ôl i enfys ddwbl y Mala Heddwch. Mae'r egwyddorion yn cynnwys cyfeillgarwch, parch a heddwch rhwng pobl o bob diwylliant, ffordd o fyw, ffydd a chred. Creodd yr ysgol gysylltiadau â chwmni lleol sy'n trefnu gweithdai ar amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r holl ddisgyblion yn mynychu gweithdy ysgol gyfan ac, oherwydd ei lwyddiant, mae hwn wedi dod yn ddigwyddiad blynyddol.

Yn ystod y gweithdai, caiff disgyblion gyfle i archwilio a datblygu eu meddylfryd, agweddau ac ymddygiad tuag at bobl o ddiwylliannau, hilion, grwpiau iaith a chrefyddau gwahanol sy'n byw yng Nghymru. Caiff disgyblion eu herio'n ddyfnach i ddeall gwahaniaeth diwylliannol a sut gallant uniaethu â phobl o ddiwylliannau gwahanol mewn ffyrdd mwy ystyrlon. Caiff medrau deallusrwydd diwylliannol eu datblygu i helpu i baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer bywyd mewn Cymru amlddiwylliannol sy'n newid. Mae gweithgareddau dilynol yn canolbwyntio ar gwestiynau a gwaith yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r ysgol hefyd wedi cyflwyno gwersi ar ymfudo, gan gynnwys profiad

Windrush a beth mae'n ei olygu i fod yn Brydeinig heddiw.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae staff yn magu hyder i fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth, gan gynnwys defnyddio iaith a therminoleg yn gywir, drwy sesiynau hyfforddiant.
- Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o bethau sy'n debyg ac yn wahanol yn ddiwylliannol mewn Cymru amlddiwylliannol.
- Mae disgyblion yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes a datblygiad cymunedau amlddiwylliannol.

# Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth strategol ac arweinyddiaeth pwnc

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd y cysylltwyd â nhw, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn nodi pwysigrwydd defnyddio'r ardal leol i addysgu disgyblion am hanes a hunaniaeth Gymreig mewn cyd-destun ystyrlon. Mae'r arweinwyr hyn yn cydnabod bod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnig cyfle sylweddol i gyfoethogi a gwella addysgu hanes lleol a hanes Cymru.

Mewn ysgolion cynradd, ychydig iawn o arweinwyr pwnc sydd â chymwysterau ffurfiol mewn hanes, er bod gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynllunio i addysgu hanes. Lle mae darpariaeth ar gyfer addysg hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar ei chryfaf, mae gan arweinwyr pwnc hanes neu'r dyniaethau awch cryf am y pwnc. Yn yr arfer orau, maent:

- yn ysbrydoli ac yn cydweithio ag aelodau staff eraill i ymchwilio i'w hardal leol a Chymru
- yn meithrin cysylltiadau â grwpiau cymunedol a safleoedd hanesyddol i gynnig dysgu proffesiynol i staff a chyflwyno profiadau gwerthfawr i ddisgyblion
- yn cynnig cymorth ac arbenigedd effeithiol, er enghraifft i helpu athrawon i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng hanes lleol, hanes Cymru a chyd-destunau rhyngwladol
- yn dewis ffynonellau crai, gan gynnwys ffynonellau cynradd ac eilaidd, i ysbrydoli dysgu disgyblion
- yn gwerthuso safonau a darpariaeth yn rheolaidd i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau

Mae uwch arweinwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yn ymwybodol o amrywiaeth fel thema drawsbynciol wrth iddynt ddylunio'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cydnabod yr angen i gynllunio sut mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cyfrannu at ddatblygu Cymru a'r byd ehangach. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o bwysigrwydd gweld cynrychiolaethau cadarnhaol o Bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y cwricwlwm, a sut gall delfrydau ymddwyn amrywiol gael dylanwad cadarnhaol ar gymuned yr ysgol. Mae lleiafrif o ysgolion yn dechrau cynnwys yr agweddau hyn yn eu darpariaeth er, mewn rhai achosion, mae hyn wedi'i gyfyngu i destunau arunig, fel Mis Hanes Pobl Dduon.

Ymgysylltodd Ysgol Gynradd Pilgwenlli â bocsiwr lleol, Mo Nasir, a aned yn Yemen, i godi dyheadau disgyblion ac archwilio'r cysyniad o hunaniaeth. Enillodd Mo Nasir fedal Efydd yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2006. Ymwelodd Mo Nasir â'r ysgol i arwain sesiynau addysg gorfforol a siarad am bwysigrwydd gweithio'n galed ac ymgysylltu ag addysg. Cafodd disgyblion eu hysbrydoli gan ei lwyddiant ac ymgysylltu â phrofiadau newydd i hybu eu hiechyd a lles.

# Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Mount Stuart

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Yn dilyn trafodaethau â disgyblion a staff, cydnabu'r ysgol fod disgyblion yn falch o'u treftadaeth eu hunain ac amrywiaeth cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'r rhesymau pam y mae'r gymuned mor amrywiol, gan gynnwys cefndir a hanes yr ardal leol. Nododd yr ysgol fod plant yn uniaethu â chefndir ethnig penodol, er enghraifft Somalïaidd, Yemenaidd neu Arabaidd, ac nad yw'r rhan fwyaf o'r plant yn teimlo'n Gymreig, er iddynt gael eu geni a'u magu ym Mae Caerdydd.

Mae'r ysgol wedi cydweithio â'r gymuned leol i ddatblygu gweledigaeth sy'n datgan 'Byddwch yn deall eich treftadaeth ac yn falch o bwy ydych fel rhan o gymuned amrywiol Mount Stuart.' Mae'r weledigaeth yn rhan greiddiol o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn yr ysgol.

**Gweithredu**

Lansiodd yr ysgol brosiect treftadaeth 'The Mount Stuart Melting Pot' yn 2019-2020. Ymchwiliodd staff a disgyblion i dreftadaeth a hanes cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu sut mae'r cymysgedd o ddiwylliannau gwahanol yn y gymuned, gan gynnwys diwylliant Cymreig, yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a 'Chymreictod'.

Cynhaliodd yr ysgol Ddiwrnod Treftadaeth i lansio'r prosiect a dathlu amrywiaeth yr ysgol. Gwisgodd disgyblion yng ngwisg draddodiadol y wlad maent yn uniaethu â hi fwyaf, a daethant â bwyd i ddathlu amrywiaeth yr ysgol.

Trwy ddefnyddio meysydd dysgu a phrofiad (MDaPh) y dyniaethau a'r celfyddydau mynegiannol fel cyd-destun ar gyfer cynllunio, ymchwiliodd pob dosbarth i gyfnod mewn hanes lleol o'r chwyldro diwydiannol hyd heddiw. Roedd

hyn yn cynnwys hanes Tiger Bay, Tre-biwt a datblygiad Bae Caerdydd fel y mae heddiw. Ymchwiliodd disgyblion i sut a pham yr ymgartrefodd pobl o ddiwylliannau gwahanol ym Mae Caerdydd ym mhob un o'r cyfnod hyn. Hefyd, gwahoddodd yr ysgol aelodau o'r gymuned leol i rannu eu profiadau a'u diwylliannau personol. Cynlluniodd athrawon gyfleoedd i ddisgyblion gyflwyno eu canfyddiadau drwy gyfrwng celf, dawns, drama a cherddoriaeth, a defnyddio artistiaid lleol i gefnogi'r gwaith. Cynlluniodd yr ysgol arddangosfa o waith y disgyblion, gan gynnwys perfformiadau byw mewn gwesty lleol ym Mae Caerdydd, ond ni fu'n bosibl cynnal y digwyddiad oherwydd y pandemig.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae disgyblion yn cydnabod ac yn dathlu eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth amlethnig eu cymuned yng Nghymru.
- Mae disgyblion yn fwy ymwybodol o gyfraniad cadarnhaol eu teuluoedd a'r gymuned i hanes lleol a hanes Cymru.
- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o arwyddocâd Bae Caerdydd ac ardal y dociau yn ystod y chwyldro diwydiannol, y rhyfeloedd byd a'r cyfnod ar ôl y rhyfel.
- Mae disgyblion yn mwynhau'r profiad o weithio ag ystod o artistiaid a chyfryngau o ansawdd uchel yn y celfyddydau mynegiannol.

# Case study: Pembroke Dock Primary School

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Cydnabu arweinwyr yn Ysgol Gynradd Doc Penfro nad oedd gan lawer o'u disgyblion lawer o brofiad o amlddiwylliannaeth yn y gymdeithas. Hefyd, mae nodau cynllun cydraddoldeb strategol yr ysgol yn cynnwys cael gwared ag iaith a digwyddiadau hiliol yn yr ysgol a'r gymuned leol.

**Gweithredu**

Cynlluniodd a chyflwynodd staff yn yr ysgol destun ysgol gyfan yn dwyn y teitl, 'Don't Hate, Educate'. Rhoddwyd cronfa o adnoddau i staff fel man cychwyn, a dyrannwyd amser iddynt ymchwilio, dod o hyd i adnoddau, cynllunio a pharatoi uned o waith. Hefyd, darparodd yr ysgol hyfforddiant gan sefydliad yn y trydydd

sector a oedd yn ymwneud yn benodol ag amrywiaeth, pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng crefyddau, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Dewisodd staff elfennau penodol o'r testun ar gyfer pob grŵp blwyddyn, er mwyn sicrhau bod dysgu'n ystyrlon ac yn briodol i'r disgyblion. Cynhwyswyd disgyblion yn y broses gynllunio, a rhoesant wybod beth yr hoffent ei wybod a dysgu amdano. Aseswyd gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r testun dan sylw ar ddechrau'r uned, ac eto ar y diwedd.

Dechreuodd disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn drwy edrych ar y llyfr 'Tusk' gan David McKee, sy'n adrodd stori am eliffantod du a gwyn, ac fel mae'r ddau grŵp yn rhyfela. Daw'r stori i ben â'r eliffantod du a gwyn heddychlon yn mynd i'r jyngl gyda'i gilydd, a genedigaeth yr eliffant llwyd. Roedd y testun yn caniatáu i'r disgyblion drafod hiliaeth a rhagfarn drwy'r stori.

Dewisodd Blwyddyn 4 ganolbwyntio ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches, wrth ymateb i agor gwersyll ffoaduriaid Penalun. Roedd disgyblion yn gofyn cwestiynau, ac yn rhannu sylwadau a safbwyntiau cadarnhaol a negyddol roeddent wedi'u clywed yn y gymuned. Penderfynodd staff ganolbwyntio ar ddatblygu empathi disgyblion tuag at ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ac annog trafodaeth a chwestiynau.

Dewisodd Blwyddyn 6 edrych ar hanes pobl dduon, ar ôl gwylio adroddiadau ar raglen Newsround y BBC yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon. Roedd gwersi'n canolbwyntio ar y fasnach drionglog a'r fordaith ganol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r fasnach gaethion. Crëwyd cysylltiadau â thynnu cerflun Edward Colston ym Mryste. Hefyd, defnyddiodd staff y nofel 'Ghost' gan Jason Reynolds i drafod a myfyrio ar y materion a godwyd.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae disgyblion yn fwy ymwybodol o wrth-hiliaeth ac amrywiaeth, gan gynnwys sut i ddefnyddio iaith yn briodol wrth drafod pynciau.
- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o effaith y fasnach gaethion a'i chysylltiadau â hanes Cymru a Phrydain.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd y cysylltwyd â nhw yn nodi bod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle sylweddol i gyfoethogi a gwella addysgu am hanes lleol a hanes Cymru. Mewn ychydig o ysgolion, mae hyn yn tanategu'r weledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, ochr yn ochr ag addysgu a dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd hanes lleol a hanes Cymru. Credai'r arweinwyr hyn fod y cwricwlwm yn orlawn, ac maent o'r farn ei fod yn anodd cynllunio i gynnwys hanes a diwylliant lleol a Chymreig. Er bod

llawer o arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n ddigon da yn eu cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm. Nid yw lleiafrif o ysgolion wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, ac nid ydynt wedi ystyried sut gallant ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddimensiynau ac amrywiaeth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn yr ysgolion uwchradd y cysylltwyd â nhw, mae bron pob un o'r arweinwyr pwnc hanes yn arbenigwyr pwnc, ynghyd â llawer o staff yn yr adran. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon mewn adrannau hanes neu'r dyniaethau yn cydweithio â'i gilydd i gynllunio addysgu a dysgu, ac i baratoi adnoddau i gefnogi dysgu. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff hyn ei gynllunio'r strategol i fanteisio ar arbenigedd a diddordebau staff. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gwybodaeth, dealltwriaeth ac awch arweinwyr pwnc am hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael dylanwad uniongyrchol ar y testunau sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm hanes.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyfleoedd i staff ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ardal leol pan fyddant yn ymuno â'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn teithiau o'r ardal leol, a rhannu gwybodaeth am hanes lleol a hanes Cymru drwy lyfrynnau a phapurau briffio.

# Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Mae llawer o uwch arweinwyr yn nodi bod eu staff yn wybodus am hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos sut mae ysgolion yn defnyddio eu prosesau hunanwerthuso i werthuso safonau a chynnydd disgyblion yn yr agweddau hyn. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr yn arolygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y meysydd hyn.

# Astudiaeth achos: Arweinyddiaeth a Stori Cymru – Ysgol Gyfun Gŵyr

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Mae'r ysgol yn rhan o brosiect ymholi proffesiynol cenedlaethol i athrawon, drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru ac ERW. Mae ethos a gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar hyrwyddo a dyfnhau ymdeimlad

disgyblion o berthyn a'u Cymreictod. Datblygodd yr ysgol ymholiad i edrych ar ei darpariaeth gyfredol ar gyfer hanes, traddodiad a diwylliant Cymru, a phwysigrwydd rôl a lle Cymru yn Ewrop a'r byd ehangach. Roedd hyn yn cynnwys datblygu 'cynefin' wrth feithrin cysylltiadau rhwng yr ardal leol, Cymru gyfan a chyd-destun byd-eang.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Defnyddiodd yr ysgol arolwg staff i ddarganfod eu gwybodaeth, profiad, medrau a hyder wrth gynllunio i gyflwyno cwricwlwm lleol. Gwahoddwyd disgyblion i gymryd rhan mewn grŵp ffocws i ddisgrifio eu profiad o sut roedd 'cynefin' a stori Cymru wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm ar hyn o bryd. Er bod yr ysgol yn ysgol cyfrwng Cymraeg, roedd staff a disgyblion yn teimlo bod Cymru, ei phobl a'i thraddodiadau wedi'u hesgeuluso yn y cwricwlwm cyfredol. Roedd disgyblion yn teimlo bod ganddynt fwy o wybodaeth am hanes Prydeinig a rhyngwladol na hanes Cymru. Teimlant nad oedd ganddynt wybodaeth am gyfraniad gwyddonol, mathemategol a thechnolegol pobl Cymru i ddatblygiadau cenedlaethol a byd-eang, a'u bod yn gwybod mwy am ddaearyddiaeth gwledydd eraill na'u hardal leol eu hunain. Roedd staff yn teimlo bod eu haddysgu eu hunain a'r diffyg dysgu proffesiynol yn ymwneud â stori Cymru yn rhwystr rhag datblygu cynefin, stori Cymru, a'i lle mewn cyd-destun byd-eang. Nodont fod dysgu proffesiynol yn allweddol i ddeall sut i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng yr ardal leol, Cymru a'r byd.

Cynigiodd yr ysgol gyfleoedd i staff ymgymryd â dysgu proffesiynol ar stori Cymru. Cynhaliodd arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad ymchwil ar gynefin a stori Cymru, er mwyn nodi cyfleoedd i gynnwys yr agweddau hyn yn eu meysydd pwnc. Nododd staff drywyddau ymholi i ymchwilio i gysyniadau 'cynefin' a stori Cymru yn eu pynciau.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Mae pob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) wedi datblygu ymholiadau'n deillio o'r ardal leol. Er enghraifft, mae gwyddoniaeth a thechnoleg wedi datblygu ymholiad ar lygredd ym Mhort Talbot a hanes gwaith copr yn yr ardal leol. Ymchwiliodd yr adran fathemateg i adeiladau nodedig yng Nghymru wrth edrych ar onglau a chyfeiriannau. Mae MDaPh y dyniaethau wedi cyflwyno ymholiadau ar achosion o golera yn Abertawe ym 1849, a phrofiadau milwyr o Dre-gŵyr a de Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Defnyddiodd ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu hanes teulu Beasley o Langennech i drafod statws cyfreithiol y Gymraeg.
- Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gan staff fel rhan o'r prosiect wedi llywio gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae pob MDaPh wedi datblygu gweledigaeth benodol ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu hunaniaeth Gymreig a chynefin mewn byd cydgysylltiedig. Caiff cyd-destun dysgu ym mhob MDaPh ei ddylanwadu'n gryf gan y weledigaeth hon.

- Mae’r ysgol wedi arbrofi ag unedau astudio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ar draws rhai MDaPhau.
- Caiff grwpiau ffocws disgyblion eu defnyddio i fonitro a gwerthuso pa mor dda mae’r unedau astudio yn ennyn diddordeb disgyblion. Mae adborth cychwynnol o’r grwpiau hyn yn dangos bod diddordeb ac ymgysylltiad disgyblion yn cael eu gwella drwy greu cysylltiadau rhwng enghreifftiau lleol, a rhai yng Nghymru a ledled y byd. Teimlai disgyblion fod ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach, ac mae empathi tuag at gynnwys gwersi a’u mwynhad o ddysgu yn cynyddu.

Cynhaliodd y rhan fwyaf o’r ysgolion y cysylltwyd â nhw archwiliad o’u darpariaeth ar gyfer hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wrth baratoi ar gyfer ein hymweliad. Ychydig iawn o’r ysgolion hyn sy’n gwerthuso ansawdd gwaith disgyblion ac effeithiolrwydd eu darpariaeth ar gyfer hanes a diwylliant Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gynllunio ar gyfer gwella.

Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae’r arweinydd pwnc hanes yn ymgymryd â rhyw fath o fonitro rheolaidd yn unol â pholisi’r ysgol. Fel arfer, mae hyn yn digwydd flynyddol neu’n rhan o gylch dwy flynedd neu dair blynedd. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae arweinwyr pwnc yn gwerthuso darpariaeth yr ysgol ar gyfer hanes yn unig. Nid ydynt yn gwerthuso’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn hanes, na’r cynnydd y maent yn ei wneud. Ym mron pob ysgol, nid yw safonau mewn hanes a diwylliant lleol a Chymru, a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hystyried fel rhan o brosesau hunanwerthuso ysgol gyfan nac wrth fonitro hanes.

Ym mron pob ysgol uwchradd, mae adrannau hanes yn hunanwerthuso safonau a darpariaeth yn eu maes pwnc. Yn gyffredinol, mae adrannau hanes yn defnyddio ystod o brosesau gwerthuso a gwella addas i nodi meysydd penodol y mae angen eu gwella. Mae lleiafrif o ysgolion yn archwilio’r cyfleoedd a gaiff disgyblion i edrych ar destunau yng nghyd-destun Cymru fel rhan o’u darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Mewn ychydig iawn o ysgolion, caiff hanes a diwylliant Cymru eu cynnwys fel maes blaenoriaeth yng nghynllun gwella’r ysgol, ac maent yn gysylltiedig â datblygu’r cwricwlwm ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff hanes a diwylliant Cymru eu hystyried yn faes blaenoriaeth penodol i adrannau Cymraeg a hanes, yn hytrach nag yn flaenoriaeth ysgol gyfan.

Ychydig iawn o ysgolion sy’n ystyried hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth wrth werthuso eu darpariaeth. O’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, ychydig iawn o ysgolion yn unig a nododd amrywiaeth, addysg gwrth-hiliaeth a chyfraniadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn feysydd blaenoriaeth allweddol mewn cynlluniau gwella. Mae’r ysgolion hyn yn dechrau

cynllunio'r ffordd orau i ddatblygu dysgu proffesiynol ac addysgu i fynd i'r afael â'r agweddau hyn.

# Dysgu proffesiynol

O'r athrawon cynradd ac uwchradd y cysylltwyd â nhw a ymgymerodd â'u haddysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, ychydig ohonynt yn unig a grybwyllodd eu bod wedi cael unrhyw hyfforddiant sylweddol ar hanes Cymru wrth gwblhau eu cyrsiau addysg gychwynnol athrawon (AGA). Ychydig iawn o athrawon yn unig a gafodd hyfforddiant ar addysgu hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae pob tiwtor hanes mewn partneriaethau AGA yn cynnal archwiliad o arbenigeddau myfyrwyr i nodi pa gyfnodau a thestunau hanesyddol mae ganddynt yr hyder i'w haddysgu. Mae gwybodaeth am hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn amrywio'n sylweddol, yn rhannol oherwydd cefndir academaidd amrywiol myfyrwyr. Mewn rhaglenni sydd wedi'u seilio mewn prifysgolion, caiff tasgau eu pennu i fyfyrwyr eu hunanastudio, ac mae tiwtoriaid yn cysylltu grwpiau bach o fyfyrwyr i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth. Yn gyffredinol, mae darpariaeth mewn prifysgolion yn cyfeirio at hanes Cymru yn ei haddysgu, ac yn cynnwys mwyfwy o hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae darpariaeth partneriaethau AGA ar gyfer hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pan gaiff myfyrwyr eu rhoi ar leoliad ysgol, yn dibynnu ar y testunau sy'n cael eu dewis gan ysgolion unigol yn eu cwricwlwm ac, ar lefel uwchradd, y testunau TGAU a Safon Uwch sy'n cael eu dewis. Mae ychydig o bartneriaethau AGA yn dechrau archwilio cyfleoedd myfyrwyr i addysgu hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wrth gael eu rhoi mewn ysgolion er mwyn nodi sut gallant ddatblygu arfer yn y meysydd hyn.

Dywed pob un o'r partneriaethau AGA y cysylltwyd â nhw eu bod yn cynnig hyfforddiant i staff a myfyrwyr ar wrth-hiliaeth ac amrywiaeth, gan gynnwys hyfforddiant gan elusen addysgol flaenllaw. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynlluniau i ddatblygu darpariaeth ar gyfer addysgu gwrth-hiliaeth ac amrywiaeth mewn elfennau craidd a phynciau ar gyrsiau AGA.

Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd y cysylltwyd â nhw, dywed staff fod awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o gyfleoedd datblygu proffesiynol i ddatblygu addysgu am hanes lleol a hanes Cymru. Yn unol â phynciau eraill nad ydynt yn bynciau craidd, nid yw ymgynghorwyr o'r awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol yn canolbwyntio ar safonau a darpariaeth ar gyfer hanes. Dywed bron pob ysgol gynradd fod ychydig iawn o gymorth i ddatblygu addysgu am hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. O ganlyniad, mae bron pob un o'r ysgolion yn dibynnu ar drefnu eu hyfforddiant mewnol eu hunain i staff yr ysgol. Mae ansawdd yr hyfforddiant yn dibynnu ar wybodaeth, medrau a brwdfrydedd yr arweinydd pwnc tuag at hanes lleol,

Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Dywed y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd fod cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon hanes yn canolbwyntio'n bennaf ar hyfforddiant a ddarperir gan y bwrdd arholi. Ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, dywed staff eu bod yn elwa ar gyfarfodydd wedi'u hwyluso gan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol i drafod datblygu adnoddau a chynlluniau gwaith ar gyfer dosbarthiadau TGAU a Safon Uwch. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn mynychu cyfarfodydd i drafod y maes pwnc yng nghyfnod allweddol 3 ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau, ac i rannu arfer orau. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddigwyddiadau hyfforddiant a chyfarfodydd sy'n cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mewn ychydig o ysgolion, lle caiff athrawon ryddid i ddewis testunau ar gyfer dysgu proffesiynol, mae athrawon yn cyfeirio at wefannau, gweminarau a chyfrifon Twitter a luniwyd yn Lloegr fel adnoddau defnyddiol i ddatblygu eu haddysgu am hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mewn ychydig o'r ysgolion y cysylltwyd â nhw, mae staff wedi ymgysylltu'n ddiweddar ag elusen addysgol neu sefydliadau sy'n hybu cydraddoldeb hiliol i gynnig dysgu proffesiynol i staff ar wrth-hiliaeth ac amrywiaeth hiliol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Yn yr ysgolion hyn, dywed staff eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth herio camsyniadau a'r ffordd maent yn defnyddio iaith i drafod hil wrth addysgu am hiliaeth ac amrywiaeth.

# Adnoddau

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd a gymerodd ran yn yr arolwg yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau addas i addysgu hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Dywed llawer o athrawon eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ffynonellau uniongyrchol sy'n addas ar gyfer disgyblion oed cynradd wrth gynllunio profiadau dysgu dilys ac ystyrlon ar gyfer hanes lleol neu hanes Cymru. Dywed llawer o athrawon eu bod yn aml yn cael trafferth dod o hyd i lyfrau ac adnoddau sy'n adlewyrchu hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac amrywiaeth cymunedau yng Nghymru gyfoes. Mewn ychydig iawn o achosion, mae hyn wedi arwain at ysgolion yn ysgrifennu a chyhoeddi llyfrau i adlewyrchu cymuned yr ysgol

# Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Cogan

**Cyd-destun a chefndir i'r arfer**

Yn 2019, roedd staff yn Ysgol Gynradd Cogan ym Mro Morgannwg yn poeni nad

oedd disgyblion yn yr ysgol yn gweld cymeriadau yn llyfrau lluniau'r ysgol a oedd yn cynrychioli eu cefndiroedd ethnig.

**Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth**

Penderfynodd athrawon gynnal eu Gwobr Llyfr Genedlaethol eu hunain i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Ar y cyd â siop lyfrau leol, dewisodd yr ysgol lyfrau gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- addas i blant rhwng tair a saith oed yn bennaf
- cyhoeddwyd rhwng 1 Mawrth 2017 a 30 Medi 2018
- thema gref o oddefgarwch a chynhwysiant, neu gynrychiolaeth gadarnhaol o leiafrifoedd, diwylliant ethnig amrywiaeth, cymeriadau amrywiol neu gymeriadau nad ydynt yn rhai ystrydebol
- cymeriadau ag anableddau

Hyrwyddodd athrawon y gystadleuaeth drwy ddefnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol, a ddenodd sylw Comisiynydd Plant Cymru ac awduron blaenllaw. Cysylltodd athrawon â chyhoeddwyr hefyd, a gyflwynodd lyfrau cymwys i'r gystadleuaeth. Darllenodd disgyblion y llyfrau a dewis rhestr fer, cyn pleidleisio ar gyfer yr enillydd.

**Effaith**

- Mwynhaodd disgyblion ddarllen y llyfrau lluniau a gwellodd ymgysylltiad â darllen.
- Datblygodd disgyblion ymwybyddiaeth o amrywiaeth yn eu deunyddiau darllen.
- Ymgysylltiad cadarnhaol â chymuned yr ysgol, gan gynnwys rhieni, y llyfrgell leol a pherchenogion busnesau lleol.

Yn gyffredinol, mewn ysgolion uwchradd, mae athrawon yn defnyddio cyfuniad o werslyfrau a luniwyd yn fasnachol, adnoddau digidol a llyfrynnau y mae athrawon wedi'u llunio eu hunain i addysgu hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r rhan fwyaf o adrannau hanes yn dibynnu ar rwydwaith anffurfiol o gysylltiadau ag ysgolion eraill i ddatblygu a rhannu adnoddau. Pan fydd adrannau'n dibynnu'n gyfan gwbl ar adnoddau a luniwyd yn fasnachol, yn aml, caiff cyfleoedd i addysgu disgyblion am hanes lleol a hanes Cymru eu colli. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn defnyddio adnoddau a luniwyd ar gyfer cyrsiau TGAU fel adnoddau dysgu i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. O ganlyniad, mewn ychydig o ysgolion, nid yw disgyblion yn astudio cwricwlwm eang ac amrywiol mewn hanes, gan y caiff testunau eu hailadrodd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Dywed athrawon ei fod yn anodd dod o hyd i ffynonellau crai cynradd ac uwchradd addas i addysgu hanes lleol a hanes Cymru. Mae ymchwilio ac addasu deunyddiau yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael trafferth dod o hyd i adnoddau Cymraeg addas, yn enwedig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Yn aml, pan gaiff adnoddau eu cyfieithu, nid yw oed darllen cyfartalog disgyblion yn cael ei ystyried.

# Atodiadau

**Atodiad 1: Cwestiynau i ddarparwyr**

**Atodiad 2: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 3**

**Geirfa**

**Cyfeiriadau**

# Atodiad 1: Cwestiynau i ddarparwyr

Fel man cychwyn ar gyfer adolygu arfer gyfredol, gall ysgolion ddefnyddio'r cwestiynau canlynol yn rhan o'u hunanwerthusiad:

## Safonau

- Sut ydym ni'n gwybod y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn hanes, yn enwedig safonau mewn hanes lleol, hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- Sut ydym ni'n gwybod pa mor dda mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes lleol, hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- Pa mor dda mae disgyblion yn adrodd eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes lleol, hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- Pa mor dda mae disgyblion yn creu cysylltiadau rhwng digwyddiadau yn eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach? Pa mor dda mae disgyblion yn creu cysylltiadau rhwng hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'r byd ehangach?
- Pa mor dda mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a dehongliadau gwahanol mewn hanes lleol a hanes Cymru, gan gynnwys hanes a safbwyntiau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- Pa mor dda mae disgyblion yn defnyddio ffynonellau hanesyddol i ddatblygu dealltwriaeth o hanes lleol, Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?

## Darpariaeth

Pa mor aml ydym ni:

- yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys ystod eang o destunau, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i astudio hanes lleol a hanes Cymru, i helpu disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd?
- yn sicrhau bod y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i ystyried hanes o safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'r byd ehangach?
- yn sicrhau bod y cwricwlwm yn galluogi disgyblion i greu cysylltiadau rhwng hanes yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach?
- yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau hanes a'u dealltwriaeth o

gysyniadau disgyblaethol a gwirioneddol wrth astudio hanes lleol, hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?

- yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth, rhagfarn, tuedd ac amrywiaeth?
- yn sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yng nghyd-destun hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystyrlon?
- yn sicrhau nad ydym yn ailadrodd testunau a/neu fedrau yng nghyfnod allweddol 3 y mae disgyblion eisoes wedi rhoi sylw iddynt yng nghyfnod allweddol 2, a’n bod yn adeiladu ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth?
- yn sicrhau bod tasgau’n adeiladu ar y wybodaeth a’r ddealltwriaeth sy’n cael eu datblygu mewn meysydd pwnc eraill mewn ysgolion uwchradd, ac nad yw gwaith tebyg yn cael ei ailadrodd wrth greu cysylltiadau trawsgwricwlaidd?
- yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi’r cwricwlwm?
- yn sicrhau bod ein darpariaeth ar gyfer diwylliant Cymreig yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, ei hamrywiaeth a rôl y Gymraeg?

# Arweinyddiaeth

Pa mor dda ydym ni:

- yn monitro’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i lywio penderfyniadau yn ymwneud â’n darpariaeth ar gyfer y meysydd hyn?
- yn ystyried pa mor hyderus y mae ein hathrawon yn teimlo o ran addysgu testunau yn ymwneud â hanes Cymru a hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff ddatblygu eu harbenigedd mewn addysgu disgyblion am yr ardal leol a Chymru?
- yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff ddatblygu eu haddysgu am wrth-hiliaeth, amrywiaeth, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?
- yn gwrando ar randdeiliaid, gan gynnwys disgyblion a rhieni?

# Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae’r canfyddiadau a’r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi’u seilio ar:

- gyfarfodydd drwy blatfform digidol ag arweinwyr mewn 21 o ysgolion cynradd, 10 ysgol uwchradd, dwy ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion
- ymweliadau â chwe ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd
- cyfweliadau â swyddogion consortia rhanbarthol
- cyfweliadau â staff academaidd o brifysgolion yng Nghymru
- cyfweliadau â thiwtoriaid o Bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon
- ymatebion arolwg gan 81 o rieni neu ofalwyr o Grŵp Cyfeirio Rhieni a Gofalwyr Estyn
- adroddiadau arolygu o fis Medi 2018 i fis Mawrth 2020

Mae sampl yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw neu a ffoniwyd yn ystyried ystod o leoliadau daearyddol, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, cefndiroedd ethnig, maint ysgolion a chyd-destunau ieithyddol.

Roedd y gweithgareddau’n cynnwys:

- cyfweliadau â phenaethiaid ac arweinwyr pwnc
- trafodaethau â disgyblion
- teithiau dysgu â staff neu ddisgyblion
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys polisïau, cynlluniau gwaith, dogfennau cynllunio, portffolios o waith disgyblion, dogfennau hunanwerthuso, archwiliadau ac adnoddau

## Rhestr o’r ysgolion a gyfwelwyd neu yr ymwelwyd â nhw

**Ysgolion cynradd**
Ysgol Croes Atti
Ysgol Gynradd Albany
Ysgol Gynradd Bethel
Ysgol Gynradd Cogan

Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer
Ysgol Gynradd Darran Park
Ysgol Gynradd Dowlais
Ysgol Gynradd Gatholig All Saints
Ysgol Gynradd Gatholig Sain Helen
Ysgol Gynradd Gatholig St Illtyd
Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn a Sant Mihangel
Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd
Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad
Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro
Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston
Ysgol Gynradd Llangrallo
Ysgol Gynradd Llanilar
Ysgol Gynradd Mount Stuart
Ysgol Gynradd Pilgwenlli
Ysgol Gynradd St Woolos
Ysgol Gynradd Stryd y Rhos
Ysgol Gynradd Talwrn
Ysgol Gynradd Talycopa
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy
Ysgol Pencae
Ysgol Terrig
Ysgol Y Bynea

**Ysgolion uwchradd**
Ysgol David Hughes
Ysgol Gyfun Gŵyr
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga
Ysgol Gyfun Penyrheol
Ysgol Gyfun Y Strade
Ysgol John Frost
Ysgol Stanwell
Ysgol Syr Thomas Jones
Ysgol Uwchradd Cathays
Ysgol Uwchradd Cei Connah
Ysgol Uwchradd y Trallwng
Uned cyfeirio disgyblion
Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Ddinbych Ysgol Plas Cefndy

**Ysgolion arbennig**
Ysgol Arbennig Portfield
Ysgol Arbennig Sant Christopher

# Atodiad 3

Y cyfartaledd treigl cenedlaethol tair blynedd yn 2021 ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yw 21%. Ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, mae 19% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae gan 18% o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA). Ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, mae gan 20% o ddisgyblion ddarpariaeth AAA.

Daw data'r holl astudiaethau achos o gronfa ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Llywodraeth Cymru. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Ionawr 2021.

**Ysgol Gynradd Albany**

Mae Ysgol Gynradd Albany yn ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli'n agos at ganol Caerdydd yn ardal amlddiwylliannol y Rhath. Ar hyn o bryd, mae 434 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw llawer o'r disgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig ac mae mwyafrif y disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 28%.

**Ysgol Gynradd Cogan**

Mae Ysgol Gynradd Cogan wedi'i lleoli yn ardal Cogan ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg. Mae 209 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae ychydig dros 14% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn wyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg gartref. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tuag 13%.

**Ysgol Gynradd Llangrallo**

Ysgol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Llangrallo, sydd wedi'i lleoli ym mhentref Llangrallo ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, ond mae nifer sylweddol o blant o'r ardal gyfagos yn mynychu'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae 152 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 18 o ddisgyblion meithrin. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Saesneg gartref. Dros y

tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 14%.

**Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer**

Mae Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer wedi'i lleoli ym Mhontnewynydd, ger Pont-y-pŵl. Yr awdurdod lleol yw Torfaen. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 258 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, ac mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig.

Mae gan yr ysgol gyfradd uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 38%.

**Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Ddinbych Ysgol Plas Cefndy**

Mae UCD portffolio Sir Ddinbych yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) pob oed i ddisgyblion sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r UCD yn gweithredu ar draws tri safle, ac mae ganddi strwythur rheolaeth linell integredig sy'n cael ei oruchwylio gan un pwyllgor rheoli. Mae'r prif safle yn Ysgol Plas Cefndy, Y Rhyl yn gartref i ddarpariaeth y cyfnod sylfaen hyd cyfnod allweddol 4 i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a darpariaeth Milestones i grŵp bach o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 sydd â lefelau uchel o orbryder. Nod yr UCD yw dychwelyd disgyblion i addysg brif ffrwd neu addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Roedd 67 o ddisgyblion ar y gofrestr yn 2019. Mae panel lleoliadau'r awdurdod lleol yn rheoli'r holl dderbyniadau i'r UCD. Mae gan fwyafrif y disgyblion gofrestriad deuol â'u hysgol brif ffrwd. Gall yr holl ddisgyblion fanteisio ar addysg amser llawn.

**Ysgol Gynradd Dowlais**

Mae Ysgol Gynradd Dowlais yn gwasanaethu cymuned Dowlais yn awdurdod lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae 191 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw lleiafrif o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tuag 21%.

**Ysgol Gynradd Mount Stuart**

Ysgol cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli yn Nhre-biwt, Caerdydd yw Ysgol Gynradd Mount Stuart. Ar hyn o bryd, mae 461 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, ac mae llawer o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 27% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn a Sant Mihangel**

Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig y Forwyn a Sant Mihangel, sydd wedi'i lleoli yn y Fenni yn awdurdod lleol Sir Fynwy. Mae gan yr ysgol 187 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw lleiafrif o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 22%.

**Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro wedi'i lleoli ger canol tref Doc Penfro yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 659 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 100 o ddisgyblion meithrin. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg gartref. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 29%.

**Ysgol Gynradd Pilgwenlli**

Ysgol fawr amlethnig mewn ardal o ddifreintedd cymdeithasol uchel ym Mhilgwenlli, Casnewydd yw Ysgol Gynradd Pilgwenlli. Daw llawer o ddisgyblion o gefndir lleiafrif ethnig ac mae llawer ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 36%.

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy wedi'i lleoli ar gyrion Rhaeadr Gwy yng nghanolbarth Cymru. Mae gan yr ysgol 203 o ddisgyblion ar y gofrestr. Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 18%. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae'n ysgol dwy ffrwd a chaiff 65 o ddisgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tuag 20%.

## Ysgol Stanwell

Mae Ysgol Stanwell yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i'r rhai 11 i 19 oed, sydd wedi'i lleoli ym Mhenarth, Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae 1,998 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 474 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Penarth a Sili. Daw llawer o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 5%, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Ysgol Gynradd St Woolos

Mae Ysgol Gynradd St Woolos wedi'i lleoli ger canol dinas Casnewydd yn awdurdod lleol Casnewydd. Mae 351 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae 51 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin naill ai yn y bore neu'r prynhawn. Daw mwyafrif y disgyblion o gefndir lleiafrif ethnig ac mae ychydig dros hanner ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 32%.

## Ysgol Gynradd Talycopa

Mae Ysgol Gynradd Talycopa yn gwasanaethu cymuned Llansamlet ar gyrion Abertawe. Mae gan yr ysgol 223 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 38 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 19%.

## Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed yw Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin ac mae'r gwasanaethu'r dref, ynghyd â'r pentrefi a'r ardal wledig gyfagos.

Mae 928 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 185 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Daw llawer o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Daw ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 4%.

**Ysgol David Hughes**

Ysgol gyfun ddwyieithog yw Ysgol David Hughes, sydd â 1,128 o ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed ar y gofrestr, y mae 214 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch de-ddwyrain Ynys Môn, sef ardal amaethyddol a thwristiaeth yn bennaf, gyda rhywfaint o ddiwydiant ysgafn. Mae bron i 50% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Caiff dros 7 o bob 10 o ddisgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 10%.

**Ysgol Gyfun Gŵyr**

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed yw Ysgol Gyfun Gŵyr. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Nhre-gŵyr ac mae'n gwasanaethu gorllewin Abertawe.

Mae 1,107 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 191 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae tuag 8% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Daw ychydig yn llai nag un o bob tri o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd lleiafrif ethnig.

**Ysgol Gynradd Talwrn**

Mae Ysgol Gynradd Talwrn wedi'i lleoli ym mhentref Talwrn, tua thair milltir o Langefni ar Ynys Môn. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol, a chaiff Saesneg ei chyflwyno i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae 35 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndir lleiafrif ethnig, ac mae mwyafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 14%.

**Ysgol Y Bynea**

Mae Ysgol Gynradd Bynea wedi'i lleol ym mhentref Bynie, ger Llanelli. Mae'r ysgol wedi tyfu'n gyflym dros y pedair blynedd diwethaf ac, ar hyn o bryd, mae 196 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Dros y tair blynedd diwethaf, cyfran gyfartalog y disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 14%.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **addysgeg** | Dull ac arfer addysgu. |
| **consortiwm rhanbarthol** | Darpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgol, fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. |
| **Cynefin** | Y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy. Er y caiff ei gyfieithu fel 'habitat' yn aml, nid lle mewn synnwyr ffisegol neu ddaearyddol yn unig yw cynefin: lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol ydyw, sydd wedi siapio ac yn parhau i siapio'r gymuned sy'n byw ynddo. (Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig). |
| **Cysyniadau disgyblaethol** | Y cysyniadau sy'n tanategu disgyblaeth hanes. Mae'r rhain yn cynnwys cronoleg, newid a pharhad, achos ac effaith, tystiolaeth, dehongliadau, cynrychiolaethau, safbwyntiau, cwestiynau, gwerthuso, arwyddocâd, llunio barn, dilysrwydd a chydgysylltiad. |
| **Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth** | Elusen addysgol wrth-hiliaeth a sefydlwyd ym 1996 yw Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Mae'r sefydliad yn defnyddio statws proffil uchel pêl-droed a phêl-droedwyr i helpu i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gymdeithas. |
| **datganiadau o'r hyn sy'n bwysig** | Datganiadau sy'n nodi cysyniadau allweddol ym meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru. |
| **dod i gasgliad** | Deall gwybodaeth neu safbwynt nad yw'n eglur yn y testun. Mae disgyblion yn cymryd gwybodaeth o'r testun, yn rhagfynegi, yn ychwanegu eu syniadau eu hunain, yn dod i gasgliadau ac yn llunio barn i greu dehongliad o'r testun. |
| **Gwrth-hiliaeth** | Y polisi o herio hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. |
| **Gwybodaeth a chysyniadau gwirioneddol** | Gwybodaeth am y gorffennol. Mae cysyniadau gwirioneddol yn cynnwys amrywiaeth, cymuned, awdurdod, llywodraethu, dinasyddiaeth, cyfiawnder a chydraddoldeb. |
| **Gwybodaeth a dealltwriaeth ddisgyblaethol** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth, sef hanes yn yr achos hwn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau disgyblaethol a gwirioneddol, a sut y gellir eu cynllunio a'u haddysgu. |
| **Hanes Pobl Dduon Cymru 365** | Mae Hanes Pobl Dduon Cymru 365 yn dathlu hanes a threftadaeth Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribïaidd yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn. |
| **Lleiafrif Ethnig** | Grŵp o bobl o ddiwylliant neu hil benodol sy'n byw mewn gwlad lle mae'r prif grŵp o ddiwylliant neu hil wahanol. |
| **Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh)** | Mae chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys MDaPh y dyniaethau. |
| **Merched y Wawr** | Sefydliad gwirfoddol i fenywod yng Nghymru a sefydlwyd ym 1967. Mae dau gant wyth deg o ganghennau ledled Cymru yn trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau rheolaidd. |
| **Mis Hanes Pobl Dduon** | Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn ddathliad sy'n para mis o gyfraniadau pobl o dras Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribïaidd i hanes lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Fel arfer, caiff Mis Hanes Pobl Dduon ei gynnal ym mis Hydref. |

| | |
|---|---|
| **rhagfarn ddiarwybod** | Ffafriaeth neu ragfarn nad yw'r unigolyn sydd â'r ffafriaeth neu'r rhagfarn honno yn ymwybodol ohoni. Gallai'r rhagfarn effeithio ar ymddygiad a phenderfyniadau. |
| **uwch fedrau darllen** | Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys medrau lleoli, ad-drefnu, dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi. |

# Numbers – quantities and proportions

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau


Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf [Cyrchwyd 9 Mehefin 2021]

Estyn (2005) *Y Cwricwlwm Cymreig: Y cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth weithredu arweiniad ACCAC a gyhoeddwyd yn 2003*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://dera.ioe.ac.uk/5753/1/Remit_6_April_05.pdf [Cyrchwyd 9 Mehefin 2021]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (2019) *Addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru*. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12870/cr-ld12870%20-w.pdf [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021]

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (2001) *Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Caerdydd: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.*

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (2003) *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig. Caerdydd: Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/9fd16056-c6b1-4489-bb23-d7a9b610fe8b/datblygu-r-cwricwlwm-cymreig.pdf [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Undod ac amrywiaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/5974d469-006d-4104-a03a-a0e2fc0b09bd/undod-ac-amrywiaeth.pdf [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Hanes yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/cyfnodau-allweddol-2-i-4/hanes-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru/ [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cymru (2013) *Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/y-cwricwlwm-cymreig-hanes-a-stori-cymru-adroddiad-terfynol.pdf [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf [Cyrchwyd 9 Mehefin 2021]

Williams, C. (2021) *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf [Cyrchwyd 9 Mehefin 2021]

Llywodraeth Cymru (2021) *Cwricwlwm i Gymru – Cod drafft Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/cod-datganiadau-or-hyn-syn-bwysig-consultation-dogfen-ymgynghori.pdf [Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2021]

CBAC *Manyleb TGAU Hanes o 2017*. Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.cbac.co.uk/media/skwopm4h/wjec-gcse-history-spec-from-2017-w.pdf [Cyrchwyd 7 Ebrill 2021]

CBAC *Addysgu UG a Safon Uwch Hanes o 2015*. Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.cbac.co.uk/media/2nqnqrr3/wjec-gce-history-spec-from-2015-cymraeg.pdf [Cyrchwyd 7 Ebrill 2021]